# DEDDF YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU) 2023

---

## ESBONIAD O NEWIDIADAU A WNEIR I DDARPARIAETHAU PRESENNOL SY'N CAEL EU CYDGRYNHOI O FEWN DEDDF YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU) 2023

**Cyflwyniad**

1. Mae'r esboniad hwn o'r newidiadau a wneir i ddarpariaethau presennol (a elwir yn "Nodiadau'r Drafftwyr") ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023. Fe'i lluniwyd gan Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog Senedd Cymru 26C.9(v).

2. Mae'r Ddeddf yn ymarfer cydgrynhoi sy'n ailddatgan deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth bresennol ac mae'n ymgorffori peth cyfraith achosion ac ymarfer cysylltiedig. Mae'r nodiadau hyn yn disgrifio'r dull cyffredinol a ddilynwyd wrth ddrafftio'r Ddeddf, a phan fo'n berthnasol maent yn esbonio sut y mae'r Ddeddf:

   - yn gwneud cymhwysiad neu effaith y gyfraith bresennol yn fwy eglur;
   - yn dileu neu'n hepgor darpariaethau sy'n ddarfodedig, wedi eu disbyddu neu nad oes iddynt ddefnydd nac effaith ymarferol mwyach;
   - yn gwneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddibenion cydgrynhoi yn foddhaol; ac
   - yn gwneud newidiadau eraill i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn argymell eu bod yn briodol i'w cynnwys mewn Bil Cydgrynhoi.

3. Wrth lunio'r Ddeddf, rhoddwyd ystyriaeth i *Canllawiau i ategu'r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C.3 ar Filiau Cydgrynhoi* a ddyroddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26C.3 ym mis Hydref 2021 (ac sydd ar gael ar wefan Senedd Cymru).

**Cynnwys Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023**

4. Mae'r Ddeddf yn cydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Cymerir y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf o Rannau 1 a 3 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ("Deddf 1979") ac o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf Adeiladau Rhestredig 1990"). Mae darpariaethau o nifer o Ddeddfau eraill wedi eu cynnwys hefyd.

5. Mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Loegr yn unig, ac mae Deddf 1979 yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Loegr yn unig neu i'r Alban yn unig. Nid yw'r Ddeddf yn ailddatgan unrhyw un o'r darpariaethau hynny. Nid yw'r nodiadau hyn yn nodi ar wahân yr holl ddarpariaethau a'r holl eiriau sydd wedi eu hepgor oherwydd nad ydynt yn berthnasol i Gymru (ond gweler y Tablau Trawsleoli ar gyfer y Deddfau hynny o dan 'Rhagor o Adnoddau' ar dudalennau'r Ddeddf ar legislation.gov.uk). Mae'r deunydd a hepgorwyd oherwydd ei fod yn ymwneud â Lloegr yn unig yn cynnwys deunydd sy'n ymwneud â Chomisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion Lloegr, â mathau o awdurdod lleol sy'n bodoli yn Lloegr yn unig, ac â phwerau a gweithdrefnau sydd ar gael yn Lloegr yn unig (megis gorchmynion cydsyniad adeilad rhestredig a gorchmynion datblygu cymdogaeth).

6. Mae'r Ddeddf yn ymgorffori rhai darpariaethau o is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi, yn ogystal â pheth cyfraith achosion ac ymarfer sy'n bwysig er mwyn deall gweithrediad y Deddfau hynny. Mae'r nodiadau hyn yn esbonio lle y mae deunydd o'r mathau hyn wedi eu cynnwys. Pan all fod angen diwygio darpariaethau sydd wedi eu symud o is-ddeddfwriaeth i'r Ddeddf, mae'r Ddeddf yn cadw pwerau i wneud diwygiadau mewn rheoliadau. Mae adran 209 yn darparu i'r holl reoliadau sy'n diwygio'r Ddeddf ei hun fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

**Argymhellion Comisiwn y Gyfraith**

7. Mae'r Ddeddf yn rhoi effaith i nifer o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad terfynol ar gyfraith cynllunio yng Nghymru, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*[1]. Mae rhai o'r argymhellion yn ymwneud yn benodol â darpariaethau sy'n cael eu hailddatgan yn y Ddeddf; mae eraill yn ymwneud â darpariaethau deddfwriaeth ym maes cynllunio sy'n union yr

[1] Comisiwn y Gyfraith Rhif 383, Tachwedd 2018

un fath â darpariaethau'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn y Ddeddf, neu yn debyg iawn i'r darpariaethau hynny. Mae'r nodiadau hyn yn nodi'r argymhellion y rhoddir effaith iddynt yn y Ddeddf.

8. Nid yw'r ffaith bod newid wedi ei argymell yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith o anghenraid yn golygu y dibynnwyd ar baragraff (v) o Reol Sefydlog Senedd Cymru 26C.2, sy'n caniatáu i Fil cydgrynhoi wneud newidiadau i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith "yn argymell y byddai'n briodol eu cynnwys mewn Bil Cydgrynhoi". Yn y rhan fwyaf o'r achosion pan wnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i roi effaith i argymhellion yn yr adroddiad, dibynnodd ar baragraffau eraill o Reol Sefydlog 26C.2.

9. Dim ond pan oedd yn ystyried nad oedd yr un paragraff arall o Reol Sefydlog 26C.2 yn gymwys y ceisiodd Llywodraeth Cymru argymhellion o dan baragraff (v). Mewn llythyr at y Prif Weinidog dyddiedig 13 Mai 2022, nododd Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith fod pedwar newid yn addas i'w cynnwys mewn Bil cydgrynhoi o dan baragraff (v). Mae'r nodiadau hyn yn nodi'r newidiadau sy'n dibynnu ar y llythyr hwnnw (y mae copi ohono ar gael ar dudalen Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar wefan Senedd Cymru).

**Effeithiau datganoli ar y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi**

10. Mae'r rhan fwyaf o'r Deddfau a gafodd eu cydgrynhoi yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu mewn ambell achos i Weinidogion eraill y Goron. Trosglwyddwyd bron pob un o'r swyddogaethau hynny gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLlC 2006").

11. Gwnaeth Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004") ddiwygiadau amrywiol i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 a deddfwriaeth arall ym maes cynllunio, gan gynnwys diwygiadau a fynegwyd fel eu bod yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Darparodd adran 118(3) o Ddeddf 2004 fod y cyfeiriadau at y Deddfau hynny yn OS 1999/672 i'w trin fel pe baent yn cyfeirio at y Deddfau fel y'u diwygiwyd, sy'n golygu bod unrhyw swyddogaethau newydd neu ddiwygiedig yn arferadwy gan y Cynulliad a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mynegwyd Rhan 5 o Ddeddf 2004 (sy'n cael ei hailddatgan yn rhannol yn y Ddeddf hon) fel ei bod yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd

Gwladol, ond darparodd adran 59(9) fod y cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i'w darllen fel pe baent yn cyfeirio at y Cynulliad. Trosglwyddwyd yr holl swyddogaethau hyn o'r Cynulliad i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

12. Mae'r Ddeddf yn adlewyrchu effaith y newidiadau hyn drwy ailddatgan y swyddogaethau a drosglwyddwyd fel swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Nid yw'r nodiadau hyn yn nodi'r holl newidiadau hynny ar wahân ond maent yn nodi newidiadau a wneir i sicrhau bod effaith trosglwyddo swyddogaethau o ran Cymru yn fwy eglur.

**Ffurf ar is-ddeddfwriaeth**

13. Mae'r ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei chydgrynhoi yn cynnwys amryw o bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Ers 2014 arfer Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol fu i bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol fel arfer fod ar ffurf pwerau i wneud rheoliadau (gweler *Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw*, paragraff 9.2). Mae'r Ddeddf felly yn ailddatgan holl bwerau Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion drwy offeryn statudol fel pwerau i wneud rheoliadau.

**Rhan 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019**

*Cyffredinol*

14. Mae Rhan 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("y Ddeddf Deddfwriaeth") yn nodi darpariaethau dehongli cyffredinol sy'n gymwys i Ddeddfau'r Senedd a ddeddfir ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020, ac sydd felly yn gymwys i'r Ddeddf hon. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf Deddfwriaeth yn wahanol mewn rhai ffyrdd i Ddeddf Dehongli 1978, sy'n gymwys i'r holl ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi bron (ac eithrio rhai darpariaethau a gymerir o is-ddeddfwriaeth ddiweddar). Er enghraifft, mae'r rhestrau o ddiffiniadau y gellir eu cymhwyso'n gyffredinol yn Atodlen 1 i'r ddwy Ddeddf ddehongli ychydig yn wahanol. Golyga hyn nad oes angen diffinio yn y Ddeddf hon rai o'r termau a ddiffinnir yn y Deddfau presennol a bod angen diffinio yn y Ddeddf hon dermau eraill nad ydynt wedi eu diffinio yn y Deddfau presennol. Cafodd y Ddeddf hon ei drafftio i roi ystyriaeth i'r gwahaniaethau hyn.

*Cymhwyso i'r Goron*

15. Cafodd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi ei deddfu yng nghyd-destun y rhagdybiaeth yn y gyfraith gyffredin nad yw deddfwriaeth yn rhwymo'r Goron. Nid yw Deddf 1979 yn rhwymo'r Goron yn gyffredinol, er ei bod yn gwneud rhai addasiadau i'r sefyllfa ddiofyn. Mae Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn rhwymo'r Goron yn gyffredinol, yn ddarostyngedig i eithriadau ac addasiadau penodol, o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf 2004.

16. Gwrthdrowyd y sefyllfa ddiofyn ar gyfer Deddfau gan Senedd Cymru o ran cymhwyso i'r Goron gan adrannau 4 ac 28 o'r Ddeddf Deddfwriaeth, drwy ddarparu bod y Deddfau hynny yn rhwymo'r Goron oni bai y gwneir darpariaeth benodol i'r gwrthwyneb. Mae adran 28(3) o'r Ddeddf Deddfwriaeth yn ei gwneud yn eglur nad yw'r newid hwn yn gosod atebolrwydd troseddol ar y Goron. Mae'r newid yn gymwys i Ddeddfau sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020.

17. Drafftiwyd y Ddeddf hon i fod yn gymwys i'r Goron i'r un graddau â'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi, ond mae rhai o'r darpariaethau sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniad hwnnw bellach yn wahanol o ganlyniad i'r newid yn y sefyllfa ddiofyn. Er enghraifft, ar y cyfan nid ailddatgenir adran 82A(1) a (2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, sy'n darparu bod y Goron yn cael ei rhwymo gan ddarpariaethau'r Ddeddf honno ac eithrio'r adrannau sy'n creu troseddau, oherwydd y cyflawnir yr un canlyniad eisoes gan adran 28 o'r Ddeddf Deddfwriaeth.

**Newidiadau i bwerau dedfrydu Llysoedd Ynadon**

18. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn cynnwys nifer o droseddau y caniateir eu rhoi ar brawf yn ddiannod (h.y. mewn llys ynadon), gan gynnwys troseddau neillffordd (h.y. troseddau y gellir eu rhoi ar brawf naill ai yn Llys y Goron neu mewn llys ynadon) a throseddau diannod. Effeithir ar y troseddau hyn gan newidiadau a wnaed gan Ddeddfau mwy diweddar sy'n ymdrin â'r dedfrydau y caniateir eu rhoi ar euogfarn ddiannod.

19. Pan ganiateid i droseddau gael eu cosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy uchaf o £5,000 neu fwy (gan gynnwys pan mai'r "uchafswm statudol" oedd y gosb uchaf), gwnaed y troseddau hynny yn rhai y caniateir eu cosbi drwy ddirwy o unrhyw swm gan adran 85 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. I adlewyrchu'r newid hwn, mae'r Ddeddf yn darparu yn syml bod y troseddau o dan sylw yn rhai y caniateir eu cosbi drwy ddirwy.

20. Mae'r Ddeddf hon yn ailddatgan darpariaethau a oedd yn creu troseddau neillffordd y caniateir eu cosbi ar euogfarn ddiannod drwy garcharu am uchafswm o 6 mis, sef y cyfnod hiraf yn y carchar y gallai llys ynadon ei roi o'r blaen am unrhyw un drosedd yn rhinwedd adran 224 o Ddeddf Dedfrydu 2020. Codwyd y cyfnod hiraf hwnnw i 12 mis gan baragraff 24 o Atodlen 22 i Ddeddf Dedfrydu 2020 (sydd bellach wedi ei ddiddymu), a chodwyd pob cyfnod hiraf o 6 mis am droseddau neillffordd penodol i 12 mis gan adran 282 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Fodd bynnag, diwygiodd adran 13 o Ddeddf Adolygiadau Barnwrol a'r Llysoedd 2022 Ddeddf Dedfrydu 2020 ymhellach fel y gall yr Arglwydd Ganghellor newid y terfyn cymwys ("applicable limit") yn adran 224 o 12 mis i 6 mis ac yn ôl. Ailddatganwyd cosbau ar gyfer troseddau neillffordd i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

21. Mae'r Ddeddf hefyd yn ailddatgan rhai troseddau diannod y caniateir eu cosbi drwy garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis. Bydd y cyfnodau hiraf hynny yn cael eu cynyddu i 51 wythnos gan adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, nad yw eto mewn grym. Ailddatganwyd y cosbau ar gyfer y troseddau hyn i adlewyrchu'r sefyllfa cyn ac ar ôl i adran 281(5) gael ei dwyn i rym.

**Newidiadau i iaith a strwythur**

22. Mae'r Ddeddf yn defnyddio nifer o'r un termau â'r ddeddfwriaeth y mae'n ei chydgrynhoi, ac yn benodol mae'n parhau i gyfeirio at henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, mae'n rhoi rhai termau newydd yn lle rhai termau arwyddocaol sy'n cael eu defnyddio yn y ddeddfwriaeth bresennol. Nid yw'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith o sylwedd a'r bwriad yw sicrhau bod y derminoleg yn fwy cywir neu ddefnyddiol. Rhoddir crynodeb o'r prif newidiadau yn y tabl a ganlyn[2].

| Term presennol | Term newydd |
|---|---|
| Adeilad eglwysig | Adeilad crefyddol |

[2] Mae Deddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn Ddeddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfwyd yn Saesneg yn unig, ond mae bron pob un o'r termau a gynhwysir yn y tabl wedi cael eu defnyddio'n ddwyieithog mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny neu mewn canllawiau a ddyroddwyd gan Cadw.

| | |
|---|---|
| Awdurdod cynllunio lleol | Awdurdod cynllunio |
| Awdurdod priodol (mewn perthynas â thir y Goron) | Awdurdod priodol y Goron |
| Cynnwys adeilad mewn rhestr a lunnir neu a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, neu eithrio adeilad o restr o'r fath | Rhestru neu ddadrestru adeilad |
| Cytundeb cynllun tref | Cytundeb ardal gadwraeth |
| Cytundeb partneriaeth dreftadaeth (mewn perthynas â heneb gofrestredig) | Cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig |
| Cytundeb partneriaeth dreftadaeth (mewn perthynas ag adeilad rhestredig) | Cytundeb partneriaeth adeilad rhestredig |
| Eiddo eglwysig | Tir Eglwys Loegr |
| Heneb hynafol | Heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig |
| Hysbysiad diogelu adeilad | Hysbysiad rhestru dros dro |
| Hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig | Hysbysiad gorfodi |
| Hysbysiad gorfodi heneb gofrestredig | Hysbysiad gorfodi |
| Hysbysiad prynu adeilad rhestredig | Hysbysiad prynu |

23. Gwnaed newidiadau eraill o ran iaith, arddull a strwythur drwy'r Ddeddf. Mae'r rhesymau am y newidiadau hyn yn cynnwys cyflwyno deunydd mewn trefn fwy rhesymegol, hepgor geiriau sy'n ddiangen, mynegi cynigion yn symlach, adlewyrchu arddull ddrafftio gyfredol a gwella cysondeb yr iaith a'r strwythur rhwng darpariaethau. Nid yw'r nodiadau hyn yn nodi newidiadau o'r math hwn oni bai bod rheswm penodol dros dynnu sylw atynt.

**Newidiadau a wnaed drwy Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023**

24. Gwnaed y newidiadau a ganlyn mewn amryw o fannau yn y Ddeddf ac fe'u disgrifir unwaith yn yr adran hon o'r nodiadau yn hytrach na'u nodi ar wahân ym mhob man y maent yn codi.

*Perchnogion a meddianwyr tir*

25. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at berchnogion a meddianwyr henebion, adeiladau neu dir. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gyfeiriadau at "y perchennog" neu "y meddiannydd", a phan fo mwy nag un perchennog neu feddiannydd o bosibl, nid yw bob amser yn eglur a yw'r ddeddfwriaeth yn golygu pob un o'r perchnogion neu'r meddianwyr, ynteu unrhyw un neu ragor ohonynt. Mae ambell ddarpariaeth yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn gwneud hyn yn fwy eglur, drwy gyfeirio at bob perchennog a meddiannydd drwy ddefnyddio "every", neu at unrhyw un neu ragor ohonynt drwy ddefnyddio "an" neu "any". Mabwysiadwyd y dull hwnnw drwy'r Ddeddf hon er mwyn gwneud y darpariaethau yn fwy eglur a mwy cyson. Y dull cyffredinol a fabwysiadwyd, pan fo hysbysiadau i'w rhoi i berchnogion a meddianwyr, yw bod rhaid eu rhoi "i bob perchennog a meddiannydd", ond pan fo hawl i berchnogion a meddianwyr gyflwyno sylwadau neu weithredu mewn rhyw ffordd arall, caiff "unrhyw un neu ragor" o'r perchnogion neu'r meddianwyr weithredu yn y ffordd honno.

*"Am y tro"*

26. Mae amryw ddarpariaethau yn Neddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn defnyddio'r geiriau "for the time being". Er enghraifft, caiff "listed building" ei ddiffinio yn adran 1(5) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 fel adeilad sy'n cael ei gynnwys yn y rhestr o dan yr adran honno "for the time being". Mae'n ymddangos bod y geiriau hyn wedi eu cynnwys i ddangos bod y cwestiwn a yw adeilad wedi ei restru i gael ei benderfynu drwy ofyn a yw wedi ei gynnwys yn y rhestr ar yr adeg y daw'r cwestiwn i gael ei ystyried. Fodd bynnag, ym mhob un o ddarpariaethau'r Deddfau presennol, bron, sy'n defnyddio'r geiriau "for the time being," byddai'n eglur heb y geiriau hynny fod rhaid ystyried y cwestiwn drwy gyfeirio at yr amgylchiadau wrth iddynt godi. Hepgorwyd y geiriau wrth ailddatgan y darpariaethau hynny felly (gweler hefyd *Drafftio Deddfau i Gymru*, paragraff 3.9(4)).

27. Cadwyd y geiriau "for the time being" mewn darpariaethau sy'n datgan bod cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad adeilad rhestredig yn cael effaith er budd y personau sydd â buddiant yn yr heneb neu'r adeilad "am y tro" (Deddf 1979, Atodlen 1, paragraff 1(2); Deddf Adeiladau Rhestredig 1990, adran 16(3)). Yn y darpariaethau hynny mae angen y geiriau i'w gwneud yn eglur y caiff person sy'n caffael buddiant ar ôl i'r cydsyniad gael ei roi elwa ar y cydsyniad.

*"Hwylus" a "priodol"*

28. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn rhoi nifer o bwerau a dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, mae darpariaethau yn galluogi Gweinidogion neu awdurdodau i wneud rhywbeth, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud rhywbeth, pan fônt yn ystyried ei bod yn hwylus ("expedient") neu'n briodol ("appropriate") gwneud hynny. Mae'r ddau air yn cael yr un effaith, ac yn y rhan fwyaf o achosion nid ydynt yn ychwanegu dim at ofynion cyffredinol cyfraith weinyddol i awdurdodau cyhoeddus weithredu yn rhesymol a chan roi sylw i ystyriaethau perthnasol, gan y byddai'n afresymol i awdurdod gymryd camau yr oedd yn eu hystyried yn "anhwylus" neu'n "amhriodol". Hepgorwyd y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at yr hyn sy'n "hwylus" neu'n "briodol" felly, ond cadwyd cyfeiriadau pan fo'n ymddangos eu bod yn ychwanegu rhywbeth neu pan na fyddai'r darpariaethau yn gwneud synnwyr hebddynt.

*"Yn ddarostyngedig i" a "heb leihau effaith"*

29. Mae darpariaethau niferus yn Neddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn datgan eu bod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill ("subject to") neu nad ydynt yn lleihau effaith darpariaethau eraill ("without prejudice to"). Arfer drafftio cyfredol yw hepgor y math hwn o ymadrodd pan fo'r berthynas rhwng darpariaethau yn eglur o'r cyd-destun, a cheisio disgrifio'r berthynas rhwng y darpariaethau yn fwy manwl pan fo angen ei gwneud yn eglur (gweler *Drafftio Deddfau i Gymru*, paragraff 5.6). Gwnaed newidiadau o'r math hwn drwy'r Ddeddf hon, ac mae'n cynnwys llai o gyfeiriadau at ddarpariaethau sy'n "ddarostyngedig i" ddarpariaethau eraill a dim un enghraifft o'r geiriau "heb leihau effaith".

*Hawliadau am ddigolledu*

30. Mae Deddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys amryw o ddarpariaethau y mae gan berson hawlogaeth i gael ei ddigolledu gan Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio odanynt, am golledion a achosir gan benderfyniad neu

weithred arall (megis dirymu cydsyniad). Mae'r darpariaethau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i hawliadau am ddigolllediad gael eu gwneud "within the prescribed time" ac "in the prescribed manner". Mae rheoliadau a wnaed o dan y ddwy Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i hawliadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig ac maent yn pennu'r terfyn amser ar gyfer gwneud hawliadau. Ym mhob achos, y terfyn amser yw 6 mis o ddyddiad y penderfyniad neu'r weithred arall sy'n ysgogi'r hawliad yn ddarostyngedig i bŵer i Weinidogion estyn y terfyn amser. Mae'r gofynion cyfredol yn rheoliad 2 o Reoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolllediad) (Cymru) 2017 (OS 2017/641) ar gyfer henebion, a rheoliad 13 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth ) (Cymru) 2012 (OS 2012/793) ar gyfer adeiladau. Nid ydynt wedi newid fawr ddim dros amser: roedd y gofynion ar gyfer henebion yr un fath yn OS 1991/2647 (ac eithrio bod y rheoliadau hynny yn pennu ffurflen gais statudol), ac roedd y rhai ar gyfer adeiladau yr un fath yn OS 1972/1362. Cymhwyswyd yr un gofynion i'r hawliau i ddigolllediad a gyflwynwyd gan Ddeddf 2016 am golledion a achoswyd gan warchodaeth interim a therfynu cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

31. Gan eu bod yn bwysig ac yn annhebygol o newid, ymgorfforwyd y terfynau amser a'r gofyniadau i wneud hawliadau yn ysgrifenedig wrth ailddatgan yr adrannau sy'n rhoi'r hawliau i ddigolllediad yn hytrach na'u gadael i reoliadau. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i'w gwneud yn eglur pryd y mae'r terfynau amser i hawlio digolllediad o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn dechrau, ar sail sut y deellir bod y darpariaethau yn gweithredu yn ymarferol ac yn unol â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer henebion yn OS 2017/641. Mae adran 202 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru estyn yr amser mewn achosion unigol ac mae'n ei gwneud yn eglur pryd y caniateir arfer y pŵer hwnnw. Mae hefyd yn rhoi pŵer iddynt wneud rheoliadau sy'n diwygio'r terfynau amser yn y Ddeddf.

**Nodiadau ar ddarpariaethau penodol o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023**

32. Mae'r tablau isod yn esbonio newidiadau a wnaed mewn darpariaethau penodol ym mhob Rhan o'r Ddeddf, ac mae'r tabl olaf yn ymdrin â darpariaethau nad ydynt wedi eu hailddatgan yn y Ddeddf. Mae'r tablau yn defnyddio'r talfyriadau a ganlyn i gyfeirio at y ddeddfwriaeth bresennol:

| *Wrth ddyfynnu tarddiadau* | *Wrth esbonio newidiadau* | |
|---|---|---|
| 1936 | Deddf 1936 | Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (p. 49) |

| | | |
|---|---|---|
| 1953 | Deddf 1953 | Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion Hynafol 1953 (p. 49) |
| 1967 | Deddf 1967 | Deddf Amwynderau Dinesig 1967 (p. 69) |
| 1972 | Deddf 1972 | Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) |
| 1979 | Deddf 1979 | Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p. 46) |
| - | Deddf 1984 | Deddf Adeiladu 1984 (p. 55) |
| 1990 ARh | Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9) |
| 1990 C | Deddf Cynllunio 1990 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8) |
| 1995 | Deddf 1995 | Deddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) |
| 2004 | Deddf 2004 | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) |
| - | Deddf 2005 | Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p. 10) |
| 2006 | DLlC 2006 | Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) |
| 2008 | Deddf 2008 | Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13) |
| 2016 | Deddf 2016 | Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4) |
| - | Deddf Deddfwriaeth | Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) |
| | | |
| OS 1972/1362 | OS 1972/1362 | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth) 1972 |
| OS 1994/1381 | OS 1994/1381 | Gorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994 |
| OS 1999/672 | OS 1999/672 | Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 |
| OS 2012/793 | OS 2012/793 | Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 |
| OS 2014/2773 | OS 2014/2773 | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 |
| OS 2017/641 | OS 2017/641 | Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigollediad) (Cymru) 2017 |
| OS 2017/642 | OS 2017/642 | Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017 |
| OS 2017/643 | OS 2017/643 | Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017 |

| | | |
|---|---|---|
| OS 2017/644 | OS 2017/644 | Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017 |
| OS 2021/1176 | OS 2021/1176 | Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 |
| OS 2021/1177 | OS 2021/1177 | Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021 |
| CG 383 | CG 383 | Comisiwn y Gyfraith, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru: Adroddiad Terfynol* (Comisiwn y Gyfraith Rhif 383, Tachwedd 2018) |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***RHAN 2 – HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG*** | | | | |
| ***Pennod 1 – Termau allweddol*** | | | | |
| ***Adran 2 – Ystyr "heneb" a "safle heneb"*** | | | | |
| Hepgor darpariaeth sy'n cyfeirio at ystyr "Wales" | 1979, a. 61 | Hepgor adran 61(7A) o'r ailddatganiad. | 26C.2(iii) | Fe'i diffiniwyd gan Atodlen 1 i'r Ddeddf Deddfwriaeth. |
| (3) | 1979, a. 61(8) | Ailfframio'r esemptiad ar gyfer adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig, gan gynnwys ychwanegu pŵer drwy reoliadau i bennu eithriadau. | 26C.2(ii) a (iv) | Mae effaith bresennol y ddarpariaeth yn ansicr, gan nad yw'n glir a yw "ecclesiastical" yn gymwys i grefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol (neu y tu hwnt i Eglwys Loegr). Mae'r pŵer i bennu |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | eithriadau wedi ei gynnwys i ddarparu hyblygrwydd rhag ofn y bydd angen eglurhad pellach yn y dyfodol. |
| (5) | 1979, a. 61(9) | Ychwanegu cyfeiriad at dir o dan heneb at y disgrifiad o'r hyn sydd wedi ei gynnwys fel rhan o safle heneb. | 26C.2(ii) | Gwnaed y newid hwn er cysondeb â'r ddarpariaeth gyfatebol sydd wedi ei hailddatgan o fan arall yn Rhan 2 o Ddeddf 1979, er mwyn osgoi amheuaeth ynghylch pa dir sydd wedi ei gynnwys. |
| ***Pennod 2 – Cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol*** | | | | |
| ***Adran 3 – Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi cofrestr o henebion*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 1(1), (3), (7) ac (8), ac a. 53(1) i (2B) | Ychwanegu cyfeiriad at "yng Nghymru" i egluro pa henebion y caniateir eu hychwanegu at y gofrestr, a hepgor darpariaethau ynghylch henebion yng Nghymru ac mewn dyfroedd tiriogaethol. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu effeithiau adran 53(1) i (2B) o Ddeddf 1979, OS 1999/672 a DLlC 2006, a diffiniad y Ddeddf Deddfwriaeth o "Cymru". Mae'r cyfeiriad at "Cymru" yn cynnwys y môr tiriogaethol. |
| | | Gofyniad syml i gyhoeddi cofrestr gyfredol i adlewyrchu'r arferion presennol, yn lle gofyniad i gyhoeddi rhestrau ar wahân o henebion cofrestredig. | 26C.2(ii) | Mae'r gofrestr gyfredol wedi ei chyhoeddi ar hyn o bryd ar-lein yn "Cof Cymru", sydd ar gael ar wefan Cadw. |
| (2) | Yn ymwneud â 1979, a. 1(6B) | Ychwanegu gofyniad i *bob* cofnod yn y gofrestr gynnwys map. Mae'r darpariaethau presennol yn aneglur | 26C.2(ii) | Yn ymarferol, mae Cadw yn cynnal map ar gyfer pob heneb gofrestredig. Gellir gweld y mapiau yn "Cof |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | ynghylch a yw mapiau yn bodoli ar gyfer pob heneb neu'n ffurfio rhan o gofnodion yn y gofrestr. | | Cymru". |
| (4) | 1979, a. 1(4) | Hepgor cyfeiriad at berson a *gyflogir* fel gofalwr. | 26C.2(ii) | Mae'n ansicr beth yw ystyr "employed as" yn y cyd-destun hwn. Yn ymarferol, mae trefniadau yn amrywio ar gyfer cymryd ymlaen ofalwyr. Mae'r hepgoriad yn osgoi'r amwysedd. |
| | | Cynnwys cyfeiriadau at adeiladau ochr yn ochr â chyfeiriadau at strwythurau. | 26C.2(ii) a (iv) | Mae anghysondebau yn y ffordd y mae Deddf 1979 yn cyfeirio at bethau a feddiennir fel anheddau. Mae adrannau 1(4) a 12(10) yn cyfeirio at "structures" a feddiennir fel tai annedd, ond mae adran 24 yn cyfeirio at "monuments" ac adran 44(1) yn cyfeirio at "buildings". Mae'r ailddatganiad yn sicrhau cysondeb gan adlewyrchu sut y cymhwysir y darpariaethau yn ymarferol. |
| ***Adran 4 – Hysbysu perchennog etc. pan fo'r gofrestr wedi ei diwygio*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 1(6) a (6B) | Hepgor darpariaeth ar wahân ynghylch diwygio mapiau. | 26C.2(ii) a (iii) | Mae newid yn y dull o ymdrin â mapiau (gweler y cofnod ar gyfer adran 3(2)) yn golygu nad oes angen crybwyll diwygiadau perthnasol i fapiau. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Adran 5 – Ymgynghori cyn ychwanegu heneb at y gofrestr neu ddileu heneb o'r gofrestr*** | | | | |
| (1)(c) | 1979, a. 1AA(1)(c) | Hepgor darpariaeth ar wahân ynghylch diwygiadau arfaethedig sy'n effeithio ar henebion a ddiffinnir drwy gyfeirio at fapiau. | 26C.2(ii) a (iii) | Gweler y cofnod ar gyfer adran 4(1) |
| Hepgor pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o ymgyngoreion | 1979, a. 1AA(6) | Hepgor pŵer i wneud rheoliadau o'r ailddatganiad. | 26C.2(iii) | Mae profiad o weithredu diwygiadau a wnaed gan Ddeddf 2016 wedi dangos bod y pŵer yn ddiangen. Mae Cadw yn ystyried bod y rhestr o ymgyngoreion yn yr adran eisoes yn gynhwysfawr. |
| ***Adran 6 – Gwarchodaeth interim wrth aros am benderfyniad ar ddiwygiadau penodol sy'n ymwneud â'r gofrestr*** | | | | |
| (1)(b) | 1979, a. 1AB(1)(b) | Hepgor cyfeiriad at gynigion i wneud diwygiadau perthnasol sy'n effeithio ar henebion a ddiffinnir drwy gyfeirio at fapiau. | 26C.2(ii) a (iii) | Gweler y cofnod ar gyfer adran 4(1) |
| Hepgor gofyniad i gyhoeddi manylion henebion yn electronig | 1979, a. 1AB(6)(a) | Hepgor cyfeiriad at "particulars" a'r gofyniad i'w cyhoeddi yn electronig. | 26C.2(ii) a (iv) | Egluro mai'r cwbl yw'r rhestr yw rhestr o henebion sy'n ddarostyngedig i warchodaeth interim. Mae cyfeirio at "particulars" yn ddiangen.<br>Nid oes angen cyfeirio'n benodol at gyhoeddi'n electronig. Mae hyn yn ffordd sefydledig o gyhoeddi dogfennau, ac mae gofyniad syml i gyhoeddi'r rhestr yn caniatáu i |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Weinidogion ddewis y ffordd fwyaf addas o sicrhau bod y rhestr ar gael i'r cyhoedd. |
| ***Atodlen 1 – diwedd gwarchodaeth interim ar gyfer henebion*** | | | | |
| Paragraff 2 | 1979, Atodlen A1, paragraff 2 | Egluro nad oes effaith ar atebolrwydd am bob trosedd o dan y Ddeddf drwy ddod â gwarchodaeth interim ar gyfer heneb i ben. | 26C.2(ii) | Dileu cyfeiriadau camarweiniol at droseddau penodol, i adlewyrchu sut y deellir bod y ddarpariaeth yn gweithredu. Ystyrir na fyddai effaith ar atebolrwydd am bob trosedd sy'n ymwneud â heneb gofrestredig drwy ddod â gwarchodaeth interim i ben. |
| ***Adran 9 – Adolygu penderfyniad i ychwanegu heneb at y gofrestr etc.*** | | | | |
| (1)(b) | 1979, a. 1AE(1)(b) | Hepgor cyfeiriad at ddiwygiadau perthnasol sy'n effeithio ar henebion a ddiffinnir drwy gyfeirio at fapiau. | 26C.2(ii) a (iii) | Mae newid yn y dull o ymdrin â mapiau – a drafodir uchod yn y trydydd cofnod ar gyfer adran 3 – yn golygu nad oes angen crybwyll diwygiadau perthnasol i fapiau. |
| (2), (6) | 1979, a. 1AE(6)(a); OS 2017/643, rheoliad 4 | Symud y seiliau ar gyfer adolygiad o reoliadau i'r adran, gyda phŵer i ddiwygio'r adran i newid y seiliau. | 26C.2(ii) a (iv) | Mae'r newid hwn yn sicrhau bod yr adran yn delio â mater pwysig y byddai rhywun yn disgwyl i ddeddfwriaeth sylfaenol ymdrin ag ef, gan gadw hyblygrwydd ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol.<br>Mae'r gwaith drafftio yn egluro effaith fwriadedig rheoliad 4 o OS 2017/643; adlewyrchir hyn yn is- |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | adran (2). |
| (3), (4) | 1979, a. 1AE(3) ac Atodlen A2, paragraff 1(1) a (2); OS 2017/643, rheoliad 3 | Symud y gofyniad i Weinidogion Cymru benodi person i gynnal yr adolygiad o reoliadau i'r adran, gyda phŵer drwy reoliadau i bennu eithriadau. | 26C.2(ii) a (iv) | Y sefyllfa bresennol, na ddisgwylir iddi newid, yw bod *pob* adolygiad yn cael ei gynnal a'r penderfyniad arno yn cael ei wneud gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru. Gall adran 1AE(3) fod yn gamarweiniol, gan fod OS 2017/643 yn peri ei bod yn ffug. |
| Hepgor darpariaeth ynghylch dilysrwydd penderfyniad | 1979, a. 1AE(4) ac Atodlen A2, paragraff 2(3) | Nid yw'r cyfeiriad at adran 50 (ailddatgan adran 55 o Ddeddf 1979) wedi ei ailddatgan. | 26C.2(iv) | Mae'r hepgoriad yn osgoi dyblygu ag adran 72 (adolygiad statudol), sydd eisoes yn ei gwneud yn glir ei bod yn gymwys i benderfyniadau ar adolygiadau. |
| ***Adran 10 – Darpariaeth atodol ynghylch adolygiadau*** | | | | |
| Hepgor darpariaeth i benderfyniad gan berson a benodir gael ei drin fel penderfyniad gan Weinidogion Cymru | 1979, Atodlen A2, paragraffau 1 a 2(2) | Hepgor paragraff 2(2) o Atodlen A2 i Ddeddf 1979. | 26C.2(iv) | Hepgor y ddarpariaeth gan fod y dull diwygiedig yn adran 9(3) yn ei gwneud yn ofynnol i adolygiadau gael eu cynnal gan bersonau a benodir. |
| (3) | 1979, a. 1AE(7) | Hepgor pŵer i wneud darpariaeth ynghylch costau drwy reoliadau. | 26C.2(iv) | Mae'r newid hwn o ganlyniad i ymdrin â chostau adolygiadau yn Atodlen 6. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Atodlen 2 – Penderfyniad ar adolygiad gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru*** | | | | |
| Paragraff 6 | 1979, Atodlen A2, paragraff 7 | Hepgor cyfeiriad at Ddeddf 2005. | 26C.2(iii) | Diddymwyd Deddf 2005 gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ac nid oes unrhyw achosion oddi tani mwyach. |
| ***Atodlen 6 – Achosion o dan Ran 2*** | | | | |
| Paragraff 1(1) | 1972, a. 250(2) fel y'i cymhwyswyd gan 1979, Atodlen A2, paragraff 4(2) | Egluro effaith adran 250(2) o Ddeddf 1972 pan fo'n ofynnol i berson ddangos dogfennau. | 26C.2(ii) | Egluro nad yw'n ofynnol i berson y mae'n ofynnol iddo ddangos dogfennau fod yn bresennol mewn ymchwiliad lleol i wneud hynny. Mae hyn yn adlewyrchu sut y deellir bod y ddarpariaeth yn gymwys yn ymarferol. |
| Paragraffau 3, 4 | OS 2017/643, rheoliad 25 | Symud darpariaeth o reoliadau i'r Ddeddf, gydag addasiadau i gyflwyno dull cyson yn y Rhan gyfan o ymdrin â chostau yr eir iddynt mewn perthynas ag achosion. | 26C.2(iv) | Nid yw'r ddarpariaeth a wnaed gan reoliad 25 ond yn ymdrin â phersonau a benodir. Gan fod mater costau yn cael sylw yn y Ddeddf yn lle rheoliadau, mae paragraffau 3 a 4 yn ymdrin â'r costau yr eir iddynt gan Weinidogion *a* chan bersonau a benodir. |
| ***Pennod 3 – Rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig*** | | | | |
| ***Adran 12 ac Atodlen 3 – Awdurdodi dosbarthau o waith*** | | | | |
| Adran 12(1) ac Atodlen 3 | 1979, a. 3(1); OS 1994/1381, | Symud cydsyniadau dosbarth o is-ddeddfwriaeth i Atodlen 3 i'r Ddeddf, | 26C.2(iv) | Nid yw OS 1994/1381 wedi ei newid ers 1994, sy'n adlewyrchu natur |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | erthygl 2 a'r Atodlen | gyda phŵer drwy reoliadau i ddiwygio'r Atodlen. | | sefydlog y polisi ar gydsyniadau dosbarth. Mae hyn yn ein galluogi i ailddatgan y ddarpariaeth ynghylch cydsyniadau dosbarth yn y Ddeddf, yn hytrach na dibynnu ar is-ddeddfwriaeth. Credwn fod y dull hwn yn fwy hygyrch. |
| (2) | 1979, a. 3(2); OS 1994/1381, erthygl 2 | Ychwanegu darpariaeth bod awdurdodiad yn ddarostyngedig i *eithriadau* ac amodau, nid amodau yn unig. | 26C.2(ii) | Mae'r disgrifiadau o ddosbarthau o waith yn OS 1994/1381 yn ddarostyngedig i gyfuniad o eithriadau ac amodau. |
| (5) | 1979, a. 3; OS 1994/1381, erthygl 2(3) | Symud darpariaeth ynghylch amodau cydsyniad heneb gofrestredig o OS 1994/1381 i adran 12. | 26C.2(iv) | Nid yw OS 1994/1381 wedi ei newid ers 1994, sy'n adlewyrchu natur sefydlog y polisi ar gydsyniadau dosbarth. Mae hyn yn ein galluogi i ailddatgan y ddarpariaeth ynghylch cydsyniadau dosbarth yn y Ddeddf, yn hytrach na dibynnu ar is-ddeddfwriaeth. Credwn fod y dull hwn yn fwy hygyrch. |
| Hepgor dosbarthau 5 ac 8 o'r Atodlen | Yr Atodlen i OS 1994/1381 | Hepgor cydsyniadau dosbarth ar gyfer gwaith brys (dosbarth 5) a gwaith o dan gytundebau rheoli (dosbarth 8). | 26C.2(iii) | Mae dosbarth 5 yn gorgyffwrdd â darpariaeth a wnaed gan adran 2(9) o Ddeddf 1979 – a ailddatgenir yn adran 30(8) – ac mae'n ddiangen.<br>Mae dosbarth 8 yn ddiangen bellach gan fod adran 51 yn pennu y caiff cytundebau rheoli a wneir gan |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Weinidogion Cymru roi cydsyniad. |
| ***Adran 14 – Gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig*** | | | | |
| (2), (4), (5) | 1979, Rhan 1 o Atodlen 1; OS 2017/642, rheoliad 3 | Symud rhannau pwysig o'r broses ar gyfer gwneud cais am gydsyniad o reoliadau i'r Ddeddf. | 26C.2(iv) | Mae elfennau sefydlog o'r broses ar gyfer gwneud cais sy'n annhebygol o newid yn y dyfodol wedi eu symud i'r Ddeddf. |
| (3)(a) | 1979, Atodlen 1, paragraff 1(1); OS 2017/642, rheoliad 3(1)(a) | Ychwanegu geiriau i egluro y caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gais gael ei wneud ar ffurflen a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. | 26C.2(ii) | Egluro'r cwmpas y deellir sydd gan y pwerau presennol ac adlewyrchu arferion o dan OS 2017/642. |
| ***Adran 15 – Declarasiynau o berchnogaeth mewn cysylltiad â heneb*** | | | | |
| (2), (3) | 1979, Atodlen 1, paragraff 2(2) | Cynnwys gofynion pwysig sy'n berthnasol i ddeclarasiwn yn y Ddeddf, gan gadw hyblygrwydd i wneud gwybodaeth ychwanegol etc. yn ofynnol. | 26C.2(iv) | Adlewyrchu arferion presennol a sicrhau cysondeb â darpariaethau ynghylch ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. |
| (6) | 1979, Atodlen 1, paragraff 2(3); OS 2017/642, rheoliad 4 | Symud y diffiniad o "perchennog" o reoliadau i'r Ddeddf. | 26C.2(iv) | Mae'r diffiniad yn sefydledig. Mae rheoliad 4 o OS 2017/642 yn adlewyrchu'r hyn a oedd yn OS 1981/1301 yn wreiddiol. |
| ***Adran 17 ac Atodlen 6 – Y weithdrefn ar gyfer penderfynu ceisiadau ac effaith rhoi cydsyniad*** | | | | |
| Adran 17(2) | 1979, Atodlen 1, paragraff 3A(3) | Ychwanegu geiriau i egluro y caiff Gweinidogion Cymru beri i un neu ragor o'r achosion a grybwyllir gael eu cynnal cyn penderfynu pa un ai i roi cydsyniad heneb gofrestredig. | 26C.2(ii) | Egluro effaith y gyfraith gyfredol. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| Adran 17(6) ac Atodlen 6 | 1979, Atodlen 1, paragraff 4(1) | Egluro effaith bresennol Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1979 mewn perthynas ag ymchwiliadau lleol a gynhelir at ddibenion paragraff 3A o'r Atodlen honno. | 26C.2(iv) | Ymdrin â diwygiad canlyniadol a gollwyd i baragraff 4(1) (sy'n honni nad yw ond yn gymwys i ymchwiliadau a gynhelir o dan baragraff 3 o Atodlen 1). |
| Atodlen 6, paragraff 3 | | Cymhwyso darpariaeth ynghylch costau i bob achos o dan adran 17. | 26.C.2(iv) | Newid i sicrhau cysondeb yn y Rhan gyfan o ran costau yr eir iddynt gan Weinidogion. |
| Atodlen 6, paragraff 3(6) | Newydd | Ychwanegu prawf sydd i'w fodloni cyn y caiff Gweinidogion ei gwneud yn ofynnol i berson dalu costau parti arall. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu arferion sefydledig sydd wedi eu cadarnhau gan gyfraith achosion yng nghyd-destun deddfwriaeth gynllunio. Mae'r newid hefyd yn gyson â CG 383 argymhelliad 18-12. |
| ***Adran 19 – Amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i'r gwaith ddechrau ynddo*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 4(1) | Ychwanegu gofyniad i gydsyniad fod yn ddarostyngedig i amod ynghylch pryd y mae rhaid i'r gwaith ddechrau, a darpariaeth ar gyfer amod tybiedig os nad oes un wedi ei gynnwys yn y cydsyniad. | 26C.2(iv) | Gwnaed y newid i wneud yr amod yn ofynnol a gosod amod tybiedig, er cysondeb ag adeiladau rhestredig (adran 98). |
| (3)(c) | OS 2021/1176, rheoliad 11 a'r Atodlen | Ailddatgan yn y Ddeddf effaith addasiad sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth yn yr Atodlen i OS 2021/1176. | 26C.2(iv) | Ei symud i'r Ddeddf gan ei fod yn datgymhwyso adran 4 o Ddeddf 1979 (hyd, addasu a dirymu cydsyniad) mewn perthynas â chytundebau partneriaeth dreftadaeth. |
| ***Adran 20 ac Atodlenni 4 a 6 – Addasu a dirymu cydsyniad*** | | | | |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| (1) | 1979, a. 4(3) | Pŵer yn arferadwy drwy *orchymyn* nid cyfarwyddydau. | 26C.2(iv) | Newid er cysondeb ag adeiladau rhestredig (adran 107). |
| (2)(b) | OS 2021/1176, rheoliad 11 a'r Atodlen | Ailddatgan yn y Ddeddf effaith yr addasiad sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth yn yr Atodlen i OS 2021/1176. | 26C.2(iv) | Mae'r cofnod cyntaf yn y tabl yn yr Atodlen i OS 2021/1176 yn datgymhwyso adran 4 o Ddeddf 1979 mewn perthynas â chytundebau partneriaeth dreftadaeth. Mae adran 20(2)(b) yn cyflawni'r un effaith drwy atal gorchmynion o dan yr adran honno rhag addasu neu ddirymu cydsyniad a roddir gan gytundeb partneriaeth heneb gofrestredig. |
| Atodlen 4, paragraff 1(2)(c) | 1979, Atodlen 1, paragraff 5(2) a (5) | Newid y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar gyfer gwneud gwrthwynebiadau, fel y bydd y cyfnod yn dechrau â *thrannoeth* y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad, nid y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad. | 26C.2(iv) | Rhoi 28 o ddiwrnodau llawn i'r person wneud gwrthwynebiadau. Mae hyn yn cysoni'r sefyllfa ag addasu neu ddirymu cydsyniad adeilad rhestredig (gweler Atodlen 8). |
| Atodlen 4, paragraff 2 | 1979, Atodlen 1, paragraff 8 | Cysylltu diwedd awdurdodiad ar gyfer gwaith â diwrnod a bennir mewn hysbysiad o dan baragraff 1, yn hytrach na "the relevant service date". | 26C.2(ii) a (iv) | Osgoi ansicrwydd ynghylch beth fydd yn digwydd pan gyflwynir hysbysiadau i fwy nag un person ar adegau gwahanol. |
| Atodlen 4, paragraff 5(2) | Gwaith drafftio newydd | Gofyniad i adroddiad person a benodir gynnwys casgliadau ac argymhellion y person ynghylch a ddylid gwneud yr addasiad neu'r dirymiad. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu sut y mae darpariaethau yn gweithredu yn ymarferol. |
| Atodlen 6, | 1979, Atodlen 1, | Cymhwyso darpariaeth ynghylch costau i | 26C.2(iv) | Newid i sicrhau cysondeb yn y Rhan |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| paragraff 3 | paragraff 9(1) | wrandawiadau yn ogystal ag ymchwiliadau. | | gyfan o ran costau yr eir iddynt gan Weinidogion. |
| Hepgor paragraff 9(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 1979 | 1979, Atodlen 1, paragraff 9(2) | Hepgor darpariaeth ynghylch pryd y mae pwerau costau yn gymwys. | 26C.2(iii) | Nid oes angen egluro hyn gan na fyddai Gweinidogion yn gorchymyn y dylai parti dalu costau oni bai eu bod wedi eu bodloni y dylai'r costau gael eu talu gan y parti hwnnw. |
| ***Adran 21 – Digolledìad am wrthod cydsyniad heneb gofrestredig neu roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau*** | | | | |
| Hepgor ail frawddeg adran 7(1) o Ddeddf 1979 | 1979, a. 7(1) | Hepgor yr ail frawddeg ynghylch ystyr cyfeiriadau at dalu digolledìad mewn cysylltiad â gwaith. | 26C.2(iii) | Nid oes angen egluro hyn. Credwn ei bod yn glir yn y cyd-destun beth y mae cyfeiriadau at dalu digolledìad mewn cysylltiad â gwaith yn ei olygu. |
| (2) | 1979, a. 7(1) | Cyfeirio at golled neu ddifrod *y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol* i effaith y penderfyniad, nid o ganlyniad iddi. | 26C.2(iv) | Yn gyson â'r ffordd o ymdrin â hawliadau am ddigolledìad mewn rhannau eraill o'r Ddeddf (gweler adran 24, er enghraifft). |
| (5) (nid yw mewn grym) | 1979, a. 7(4A) | Hepgor pŵer i bennu eithriadau drwy reoliadau. | 26C.2(iii) | Nid yw adran 7(4A) mewn grym eto (gweler adran 10(2) o Ddeddf 2016); mae profiad ers 2016 yn awgrymu na fyddai'r pŵer byth yn cael ei ddefnyddio. |
| ***Adran 22 – Adennill digolledìad a dalwyd o dan adran 21 ar ôl rhoi cydsyniad dilynol*** | | | | |
| Hepgor y gofyniad i hawliad fod yn | 1979, a. 8(2)(a) | Hepgor y trothwy o £20. | 26C.2(iii) | Mae'r swm mor isel fel ei fod yn ddiystyr yn ymarferol. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| fwy nag £20 | | | | |
| ***Adran 23 – Penderfynu'r swm sy'n adenilladwy o dan adran 22*** | | | | |
| (3) | 1979, a. 8(4) | Hepgor darpariaeth ynghylch beth y mae'r Uwch Dribiwnlys yn ystyried ei fod yn gyfiawn. | 26C.2(iii) | Ymdrinnir â hyn drwy gyfuniad o swyddogaeth y Tribiwnlys ac amcan pennaf y rheolau gweithdrefnol yn OS 2010/2600. |
| ***Pennod 4 – Cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig*** | | | | |
| ***Adran 25 – Cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig*** | | | | |
| (4) | 1979, a. 9ZA(3)(b) | Egluro effaith y geiriad presennol ynghylch cytundebau yn rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau; hepgor disgrifiad o fathau o amod. | 26C.2(ii) a (iii) | Mae'r geiriad presennol yn awgrymu disgresiwn ynghylch pa un ai i gynnwys amodau mewn cytundeb. Nid felly y deellir y ddarpariaeth yn ymarferol. Mae'r cyfeiriad at fathau o amod yn ddiangen gan ei bod yn glir bod y cydsyniad yn fath o gydsyniad heneb gofrestredig y mae adran 18 yn gymwys iddo. |
| ***Adran 26 – Darpariaeth bellach ynghylch cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig*** | | | | |
| (2)(a) i (c) | OS 2021/1176, rheoliad 3(1)(a) i (d) | Symud materion pwysig sy'n ymwneud â chynnwys cytundebau o reoliadau i'r Ddeddf. | 26C.2(iv) | Eu symud i'r adran er cysondeb â darpariaethau ynghylch ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig. |
| ***Adran 27 ac Atodlenni 5 a 6*** | | | | |
| (1) i (5) | 1979, a. 9ZB; OS 2021/1176, rheoliad 6 | Symud materion pwysig ynghylch terfynu cytundebau o reoliadau i'r Ddeddf, gan gadw hyblygrwydd i addasu'r system | 26C.2(iv) | Eu symud er cysondeb â darpariaethau ynghylch addasu a dirymu cydsyniad heneb |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | drwy reoliadau. | | gofrestredig. |
| ***Adran 28 – Digolledediad mewn perthynas â therfynu*** | | | | |
| (1) i (5) | OS 2021/1176, rheoliad 10 | Symud materion pwysig ynghylch digolledediad o reoliadau i'r Ddeddf. | 26C.2(iv) | Eu symud er cysondeb â darpariaethau eraill ynghylch digolledediad. |
| ***Pennod 5 – Gorfodi rheolaethau sy'n ymwneud â henebion cofrestredig*** | | | | |
| ***Adran 30 – Y drosedd o gyflawni gwaith anawdurdodedig neu dorri amod mewn cydsyniad*** | | | | |
| (7)(b) | Deddf 1979, a. 2(8A)(b) | Hepgor gofyniad bod gwybodaeth yn bodoli *cyn* i'r gwaith gael ei gyflawni etc.. | 26C.2(iv) | Mae hyn yn cywiro gwall drafftio yn adran 2(8A) mewn perthynas ag achosion pan gyflawnir y drosedd yn ddiweddarach. |
| (8)(b), (c) | Deddf 1979, a. 2(9) | Ychwanegu gofynion i brofi bod y gwaith wedi ei gyfyngu i'r isafswm a oedd yn angenrheidiol, ac i roi cyfiawnhad manwl dros y gwaith. | 26C.2(iv) | Gwnaed y newid hwn er cysondeb ag adeiladau rhestredig (gweler adran 117(4)). |
| ***Adran 31 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad stop dros dro*** | | | | |
| (4)(a) | Gwaith drafftio newydd | Ychwanegu disgresiwn i arddangos copi o hysbysiad mewn lle amlwg yn agos i heneb neu dir os nad yw'n rhesymol ymarferol ei arddangos ar yr heneb neu'r tir. | 26C.2(ii) | Newid i adlewyrchu'r arferion presennol ac effaith gofynion (gan nad yw deddfwriaeth yn cael ei dehongli fel gwneud yr amhosibl neu'r abswrd yn ofynnol). |
| (5) | Deddf 1979, a. 9ZI(4) | Ychwanegu cyfeiriadau at bersonau sy'n caniatáu gwaith a meddianwyr fel rhai a allai gael hysbysiad. | 26C.2(ii), (iv) | Mae ychwanegu cyfeiriad at bersonau sy'n caniatáu i waith gael ei gyflawni yn sicrhau y bydd hysbysiad yn cael ei gyflwyno i bawb a fydd yn gyfrifol |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | am dorri'r hysbysiad o dan adran 33. Drwy ychwanegu meddianwyr, y bwriad yw egluro effaith y gyfraith bresennol, fel yr argymhellwyd yn CG 383 argymhelliad 12-6(4) ar gyfer y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| ***Adran 32 – Hyd etc. hysbysiad stop dros dro*** | | | | |
| (5) | 1979, a. 9ZI(10) | Mae'r gwaith drafftio yn nodi'r mathau penodol o gamau gorfodi eraill, yn hytrach na dweud eu bod yn *cynnwys* gwaharddeb. | 26C.2(ii) | Egluro'r effaith y deellir y mae'r ddarpariaeth yn ei chael. |
| ***Adran 33 – Y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 9ZK(1) | Diwygio'r drosedd i gyfeirio at gyflawni gwaith pan fydd hysbysiad stop dros dro yn cael effaith (a hepgor cyfeiriad at hysbysiad sydd wedi ei gyflwyno i berson). | 26C.2(ii) | Egluro a symleiddio'r ddarpariaeth, fel yr argymhellwyd yn CG 383 argymhelliad 12-7(1) ar gyfer y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| (4) | 1979, a. 9ZK(4) | Ychwanegu gofynion i brofi bod y gwaith wedi ei gyfyngu i'r isafswm a oedd yn angenrheidiol, ac i roi cyfiawnhad manwl dros y gwaith. | 26C.2(iv) | Gwnaed y newid hwn er cysondeb ag adeiladau rhestredig (gweler adran 121(4)). |
| ***Adran 34 – Digolllediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop dros dro*** | | | | |
| (1)(a) | Deddf 1979, a. 9ZL(2)(a) | Ychwanegu geiriad i'w gwneud yn glir y bydd a yw gwaith heb ei awdurdodi yn | 26C.2(ii) | Egluro pryd y bydd y cwestiwn yn cael ei asesu at ddibenion digolledu. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | cael ei asesu pan fydd yr hysbysiad yn cymryd effaith. | | |
| (3) | 1979, a. 9ZL(1) | Newid y geiriad i'w gwneud yn glir bod y cwestiwn a oes gan berson fuddiant yn yr heneb i gael ei asesu ar yr adeg y mae hysbysiad yn cymryd effaith (yn hytrach nag ar y diwrnod y mae'n cymryd effaith). | 26C.2(ii) | Egluro pa bryd yn union y mae rhaid bod gan berson fuddiant er mwyn gwneud hawliad am ddigolledSiad. |
| ***Adran 35 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (3)(a) | Deddf 1979, a. 9ZC(5)(b) | Newid i'r prawf ar gyfer ei gwneud yn ofynnol cyflawni gwaith pellach, fel y gall Gweinidogion Cymru ddibynnu ar *naill ai* ymarferoldeb neu ddymunoldeb. | 26C.2(iv) | Gwnaed y newid er cysondeb ag adeiladau rhestredig (gweler adran 123(3)). |
| (5)(a) | Deddf 1979, a. 9ZD(5)(a) | Hepgor gofyniad i gyhoeddi yn electronig a chyfeiriad at "particulars". | 26C.2(iv) | Mae cyfeiriadau at gyhoeddi yn electronig a "particulars" yn ddiangen. |
| ***Adran 36 – Cyflwyno hysbysiad gorfodi a'r hysbysiad yn cymryd effaith*** | | | | |
| (5) | Deddf 1979, a. 9ZC(4) | Mae is-adran (5)(a) yn ddarpariaeth newydd ynghylch pryd y mae rhaid cyflwyno hysbysiad gorfodi. | 26C.2(iv) | Gwnaed y newid er cysondeb ag adeiladau rhestredig (gweler adran 123(5)(a)). |
| ***Adran 37 – Amrywio hysbysiad gorfodi a thynnu hysbysiad gorfodi yn ôl*** | | | | |
| (4) | Deddf 1979, a. 9ZD(4) | Ychwanegu darpariaeth i egluro nad yw gofyniad hysbysu ond yn gymwys pan fo hysbysiad gorfodi wedi ei gyflwyno. | 26C.2(ii) | Nodi'r effaith y deellir y mae'r ddarpariaeth eisoes yn ei chael. |
| ***Adran 38 – Effaith rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ar hysbysiad gorfodi*** | | | | |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| (3) | Gwaith drafftio newydd | Egluro'r sefyllfa o ran atebolrwydd am fethiannau blaenorol i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi. | 26C.2(iv) | Gwnaed y newid er cysondeb ag adeiladau rhestredig (gweler adran 126(3)). |
| ***Adran 39 – Apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (2)(c) | Deddf 1979, a. 9ZE(3) | Hepgor darpariaeth ynghylch sicrhau diogelwch neu iechyd drwy waith atgyweirio neu waith ategu neu gysgodi dros dro. | 26C.2(ii) a (iv) | *Mae* cydsyniad heneb gofrestredig yn ofynnol ar gyfer gwaith atgyweirio neu waith ategu dros dro. Mae'r sail dros apêl yn adran 9ZE(3)(c) o Ddeddf 1979 yn atgynhyrchu darpariaeth gyfatebol ar gyfer adeiladau rhestredig – y gellir cyflawni gwaith atgyweirio neu waith ategu ar eu cyfer heb gydsyniad – ond mae'n ymddangos ei bod wedi ei chynnwys drwy gamgymeriad yn adran 9ZE. |
| ***Adran 40 – Pwerau i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (3) | Deddf 1979, a. 9ZF(4) | Ychwanegu gofyniad i gais i lys ynadon am warant gael ei wneud drwy gŵyn. | 26C.2(ii) | Egluro sut y byddai cais yn cael ei wneud ac mae'n cyd-fynd â phwerau'r llysoedd ynadon yn Rhan 2 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980. |
| ***Adran 41 – Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (5) | Deddf 1979, a. 9ZG(8) | Newid i'r hyn y mae rhaid i'r llys roi sylw iddo, fel y rhoddir sylw i fuddion ariannol sy'n debygol o ddilyn o ganlyniad i'r drosedd o fethu â chydymffurfio â'r | 26C.2(iv) | Mae'r newid yn sicrhau cysondeb â'r ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer adeiladau rhestredig (gweler adran 117(8)) ac yn cywiro gwall yn adran |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | hysbysiad gorfodi; nid buddion o ganlyniad i gyflawni'r gwaith gwreiddiol a arweiniodd at ddyroddi'r hysbysiad. | | 9ZG. |
| ***Pennod 6 – Caffael, gwarcheidiaeth a mynediad y cyhoedd*** | | | | |
| ***Adran 46 – Darpariaeth atodol ynghylch gweithredoedd gwarcheidiaeth*** | | | | |
| (3) | 1979, a. 12(10) | Hepgor cyfeiriad at berson a *gyflogir* fel gofalwr. | 26C.2(ii) a (iv) | Mae'n ansicr beth yw ystyr "employed as" yn y cyd-destun hwn. Yn ymarferol, mae trefniadau yn amrywio ar gyfer cymryd ymlaen ofalwyr. Mae'r hepgoriad yn osgoi'r amwysedd. |
| | | Ychwanegu cyfeiriadau at adeiladau. | | Gweler y nodyn ar gyfer adran 3(4) ynghylch cyfeiriadau at adeiladau a strwythurau a feddiennir fel anheddau. |
| ***Adran 47 – Swyddogaethau cyffredinol gwarcheidwaid*** | | | | |
| (4) | Gwaith drafftio newydd | Egluro y caiff gwarcheidwaid ei gwneud yn ofynnol talu tâl mewn cysylltiad ag unrhyw ddefnydd o heneb. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu arferion sefydledig; er enghraifft, mae Cadw yn codi tâl am briodasau neu ddigwyddiadau eraill a gynhelir ar henebion neu gerllaw iddynt. |
| (5) | 1979, a. 13(5) | Yn y geiriau mewn cromfachau, ychwanegu cyfeiriad at fynd i'r safle. | 26C.2(ii) | Egluro effaith y ddarpariaeth a datrys anghysondeb â darpariaeth debyg yn adran 49, sy'n ailddatgan adran 15(4) o Ddeddf 1979. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| Hepgor y diffiniad o "maintenance" a "maintain" | 1979, a. 13(7) | Hepgor y diffiniad. | 26C.2(iii) | Nid yw'r diffiniad yn ychwanegu dim at ystyr arferol yr ymadroddion. |
| ***Adran 49 – Caffael a gwarcheidiaeth tir yng nghyffiniau heneb*** | | | | |
| (5)(a) | 1979, a. 15(3)(a) | Egluro bod y pŵer i reolaethu a rheoli tir yn llawn yn caniatáu codi tâl am unrhyw ddefnydd o'r tir. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu'r arferion presennol; er enghraifft, mae Cadw yn codi tâl am briodasau neu ddigwyddiadau eraill a gynhelir ar henebion neu gerllaw iddynt. |
| ***Adran 51 – Cytundebau ynghylch rheoli henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig a thir yn eu cyffiniau*** | | | | |
| (5)(a) | 1979, a. 17(4)(a) | Ychwanegu geiriau mewn cromfachau yn dweud y caiff cytundeb roi cydsyniad heneb gofrestredig, i adlewyrchu effaith dosbarth 8 o OS 1994/1381. | 26C.2(iv) | Mae hyn yn dileu'r angen i ailddatgan adran 17(8) o Ddeddf 1979, sy'n darparu nad oes dim mewn cytundeb a wneir â Gweinidogion Cymru i'w ddehongli fel cydsyniad heneb gofrestredig. |
| (5)(d) | 1979, a. 17(4)(d) | Ychwanegu cyfeiriad at gyfyngu ar fynediad i heneb neu dir. | 26C.2(iv) | Ychwanegu'r cyfeiriad er cysondeb â'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig. |
| (7) | Gwaith drafftio newydd | Ychwanegu gofyniad i bennu unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y cydsyniad. | 26C.2(iv) | Ychwanegu'r gofyniad er cysondeb â'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Adran 55 – Mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus*** | | | | |
| (4) | 1979, a. 19(2) | Nid yw pŵer awdurdodau lleol i reolaethu amseroedd mynediad y cyhoedd yn arferadwy drwy reoliadau mwyach. | 26C.2(ii) a (iv) | Mae'r newid hwn yn adlewyrchu arferion sefydledig. |
| (5) | 1979, a. 19(2) | Nid yw pŵer awdurdodau lleol i atal y cyhoedd rhag cael mynediad yn ddarostyngedig mwyach i ofyniad am gydsyniad Gweinidogol. | 26C.2(ii) a (iv) | Mae'r newid hwn yn adlewyrchu arferion sefydledig. |
| (5)(c) | Gwaith drafftio newydd | Egluro y caniateir rheolaethu mynediad y cyhoedd mewn cysylltiad â digwyddiadau neu weithgareddau eraill. | 26C.2(ii) | Mae'r newid hwn yn adlewyrchu arferion sefydledig. |
| (6) | Gwaith drafftio newydd | Egluro y caniateir rheolaethu mynediad y cyhoedd mewn cysylltiad â digwyddiadau neu weithgareddau eraill. | 26C.2(ii) | Mae'r newid hwn yn adlewyrchu arferion sefydledig. |
| ***Adran 56 – Pŵer i wneud rheoliadau ac is-ddeddfau mewn cysylltiad â mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 19(3) a (4) | Culhau pŵer i wneud rheoliadau. | 26C.2(ii) a (iv) | Nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei arfer. Mae'r pŵer wedi ei gyfyngu i'r hyn y mae Cadw yn ei ystyried yn ofynnol. |
| (3) | 1979, a. 19(3) a (4) | Culhau pŵer a'i ailfframio fel pŵer i wneud is-ddeddfau. | 26C.2(ii) a (iv) | Nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei arfer. Bydd y pŵer i wneud is-ddeddfau yn denu darpariaeth berthnasol o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Pennod 7 - Cyffredinol*** | | | | |
| ***Adran 61 – Gwaith ar gyfer diogelu heneb gofrestredig mewn achosion brys*** | | | | |
| (2) | 1979, a. 5(1) | Egluro bod 7 niwrnod o rybudd yn golygu 7 niwrnod *clir*. | 26C.2(ii) | |
| (3)(a) | 1979, a. 5(1) | Hepgor cyfeiriad at orchmynion digolledu o dan Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000. | 26C.2(iii) | Mae'r cyfeiriad wedi ei ddisbyddu. Diddymwyd Deddf 2000 gan Ddeddf Dedfrydu 2020 gydag effaith o 1 Rhagfyr 2020. |
| ***Adran 62 – Gwariant ar gaffael a diogelu henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig etc.*** | | | | |
| (6) | 1979, a. 24(5) | Hepgor cyfeiriad at berson a *gyflogir* fel gofalwr. | 26C.2(ii) | Mae'n ansicr beth yw ystyr "employed as" yn y cyd-destun hwn. Yn ymarferol, mae trefniadau yn amrywio ar gyfer cymryd ymlaen ofalwyr. Mae'r hepgoriad yn osgoi'r amwysedd. |
| ***Adran 64 – Gwariant gan awdurdodau lleol ar ymchwiliad archaeolegol*** | | | | |
| (1) i (3) | 1979, a. 45(1) i (4) | Hepgor pwerau Gweinidogion Cymru. | 26C.2(iii) | Yr arfer yw defnyddio pwerau cyffredinol sydd ar gael o dan DLlC 2006. |
| ***Adran 65 – Pwerau mynediad i arolygu henebion cofrestredig etc.*** | | | | |
| (2)(c) | 1979, a. 6(2A) (gweler OS 2021/1176, rheoliad 11 a'r | Symud addasiad o adran 6 o Ddeddf 1979 i'r Ddeddf. | 26C.2(iv) | Sicrhau yr ymdrinnir yn gyson â phwerau mynediad yn y Ddeddf. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | Atodlen) | | | |
| ***Adran 66 – Pwerau mynediad sy'n ymwneud â gorfodi rheolaethau ar waith*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 9ZJ | Hepgor pŵer i fynd ar dir i ystyried hawliad am ddigollediad. | 26C.2(iii) | Osgoi dyblygu. Mae adran 68 (sy'n ailddatgan adran 43 o Ddeddf 1979) yn ymdrin â hyn. |
| ***Adran 69 – Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad o dan y Rhan hon*** | | | | |
| (5) | 1979, a. 44(3) | Ychwanegu gofyniad i ddatgan diben mynd ar y tir. | 26C.2(iv) | Newid er cysondeb â'r ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer adeiladau rhestredig; gweler adran 153(4)(a). |
| (6) | 1979, a. 44(4) | Hepgor cyfeiriad at wneud unrhyw beth sy'n rhesymol angenrheidiol. | 26C.2(ii) a (iii) | Nid oes angen egluro hyn. Afraid dweud y caniateir i berson, ar ôl iddo fynd ar dir at ddiben (awdurdodedig) penodol, wneud pethau sy'n rhesymol angenrheidiol i gyflawni'r diben hwnnw. |
| ***Adran 74 – Tir y Goron*** | | | | |
| (1) | Gwaith drafftio newydd | Darpariaeth i gyfyngu ar gymhwyso i'r Goron. | 26C.2(iv) | Cynhwysir y ddarpariaeth i osgoi'r sefyllfa ddiofyn o dan adran 28(1) o'r Ddeddf Deddfwriaeth y byddai'r Ddeddf yn rhwymo'r Goron. |
| ***Adran 75 – Dehongli'r Rhan hon*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 61(1); 1995, Atodlen 9, paragraff 10 | Mae'r diffiniad o "awdurdod lleol" yn cynnwys cyfeiriad at awdurdod Parc Cenedlaethol. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu effaith addasiadau a wnaed gan baragraff 10 o Atodlen 9 i Ddeddf 1995, a'r ffaith bod pob awdurdod Parc Cenedlaethol yng |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Nghymru yn awdurdod cynllunio. |
| (6)(b) | 1979, a. 61(12)(b) | Ychwanegu cyfeiriad at "sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru". | 26C.2(ii) | Adlewyrchu effaith OS 1999/672 a DLlC 2006 ar Ddeddf 1979. |
| (7) | 1979, a. 53(1) | Cynnwys darpariaeth ar gyfer y geiriad mewn cromfachau ar ddiwedd adran 53(1) o Ddeddf 1979 ("but not otherwise"). | 26C.2(ii) | Egluro effaith adran 61(12)(b) ar adran 53(1). |
| Cyfeiriadau at fod yn berchen ar heneb yn rhinwedd y Ddeddf | 1979, a. 32(3) | Hepgor darpariaeth ynghylch ystyr Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn berchnogion ("owners") ar heneb. | 26C.2(iii) | Mae'r ddarpariaeth yn datgan yr amlwg. |
| ***RHAN 3 – ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG*** | | | | |
| ***Pennod 1 – Rhestru adeiladau o ddiddordeb arbennig*** | | | | |
| ***Adran 76 – Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o adeiladau*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 1(1) | Ychwanegu gofyniad datganedig i'r rhestr gynnwys pob adeilad y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod o ddiddordeb arbennig. | 26C.2(ii) | Deellir bod adran 1(1) o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd i restru pob adeilad sy'n bodloni'r meini prawf rhestru. Gweler Llywodraeth Cymru, *Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (Mai 2017), paragraffau 5.1 i 5.8. |
| | | Hepgor cyfeiriadau at Weinidogion yn llunio ("compiling") rhestr o adeiladau ac yn cymeradwyo rhestrau a luniwyd gan | 26C.2(iii) | Mae'r rhestr eisoes yn bodoli. Nid yw'r pŵer i gymeradwyo rhestrau a luniwyd gan eraill erioed wedi ei |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | eraill. | | ddefnyddio ac mae Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddefnyddio. |
| | | Hepgor disgrifiad o ddiben rhestr fel arwain awdurdodau cynllunio wrth iddynt arfer swyddogaethau cynllunio mewn perthynas ag adeiladau o ddiddordeb arbennig. | 26C.2(iii) | Nid oes angen y disgrifiad gan fod y Ddeddf yn nodi'n glir effeithiau rhestru adeilad. |
| | 1990 ARh, a. 1(1) a 2(4) | Ychwanegu gofyniad syml i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr gyfredol, yn hytrach na gofyniad iddynt roi copïau ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu arferion sefydledig. Mae'r rhestr gyfredol wedi ei chyhoeddi ar-lein yn "Cof Cymru", sy'n rhan o wefan Cadw. |
| (5) | 1990 ARh, a. 1(5) | Ychwanegu geiriad i bennu dyddiad ar gyfer penderfynu pa strwythurau a gwrthrychau o fewn cwrtil adeilad rhestredig sydd wedi eu cynnwys yn y rhestriad. Yn gyffredinol, y dyddiad rhestru yw'r dyddiad perthnasol. | 26C.2(ii) | Eglurhad i adlewyrchu sut y deellir bod y gyfraith yn gweithredu, yn seiliedig ar gyfraith achosion a nodir yn CG 383 paragraff 13.252. Mae'r newid yn rhoi effaith i CG 383 argymhelliad 13-10. |
| | | Ychwanegu geiriad i egluro nad yw strwythurau a gwrthrychau sy'n sownd wrth adeilad rhestredig neu o fewn ei gwrtil ond yn cael eu cynnwys yn y rhestru os ydynt yn atodol i'r adeilad. | 26C.2(ii) | Eglurhad i adlewyrchu effaith cyfraith achosion (gan gynnwys *Debenhams plc v Westminster City Council* [1987] AC 396; *Morris v Wrexham County Borough Council* [2002] 2 P & CR 7; *R (Hampshire County Council) v Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs* [2022] QB 103). |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Adran 77 – Hysbysiad o restru neu ddadrestru adeilad*** | | | | |
| (1), (2) | 1990 ARh, a. 2(1) a (3A) a 2D(1) a (2) | Dyletswydd i anfon copïau o gofnodion newydd i awdurdodau lleol, yn hytrach na dyletswydd i adneuo copïau ardystiedig ("deposit certified copies") gyda hwy, a chyfuno dyletswyddau i hysbysu perchnogion a meddianwyr. | 26C.2(ii) | Symleiddio darpariaethau ac adlewyrchu'r arferion presennol. |
| ***Adran 78 – Ymgynghori cyn rhestru neu ddadrestru adeilad*** | | | | |
| Hepgor pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o ymgyngoreion | 1990 ARh, a. 2A(5) | Hepgor pŵer i wneud rheoliadau sy'n diwygio'r rhestr o bersonau i ymgynghori â hwy ynghylch cynnig i restru neu ddadrestru adeilad. | 26C.2(iii) | Mae profiad o weithredu Deddf 2016 wedi dangos bod y pŵer yn ddiangen. Mae Cadw yn ystyried bod y rhestr o ymgyngoreion yn yr adran eisoes yn gynhwysfawr. |
| ***Adran 79 – Gwarchodaeth interim wrth aros am benderfyniad o ran pa un ai i restru adeilad*** | | | | |
| (4) | 1990 ARh, a. 2B(5) | Hepgor cyfeiriad at "particulars" a'r gofyniad i'w cyhoeddi yn electronig. | 26C.2(ii), (iv) | Mae cyfeiriadau at "particulars" a chyhoeddi yn electronig yn ddiangen. Yn ymarferol, y cwbl yw'r rhestr yw rhestr o adeiladau sy'n ddarostyngedig i warchodaeth interim. Cyhoeddi yn electronig yw'r ffordd arferol y mae Cadw yn cyhoeddi pob dogfen. |
| ***Atodlen 7 – Diwedd gwarchodaeth interim neu restru dros dro ar gyfer adeiladau*** | | | | |
| Paragraff 2 | 1990 ARh, Atodlen 1A, | Egluro nad oes effaith ar atebolrwydd am bob trosedd o dan y Ddeddf drwy ddod â | 26C.2(iv) | Dileu cyfeiriadau camarweiniol at droseddau penodol, i adlewyrchu sut |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | paragraff 2 ac Atodlen 2, paragraff 2 | gwarchodaeth interim neu restru dros dro ar gyfer adeilad i ben. | | y deellir bod y ddarpariaeth yn gweithredu. Ystyrir na fyddai effaith ar atebolrwydd am bob trosedd sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig drwy ddod â gwarchodaeth interim neu restru dros dro i ben. |
| Paragraff 5 | 1990 ARh, Atodlen 1A, paragraff 4 ac Atodlen 2, paragraff 4 | Estyn darpariaethau ynghylch hysbysiadau gorfodi yn darfod pan fydd gwarchodaeth interim (neu restru dros dro) yn dod i ben, i gwmpasu hysbysiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Diwygiad cyfatebol i ddarpariaeth ynghylch gwariant yr eir iddo wrth gymryd camau i gydymffurfio â hysbysiad. | 26C.2(iv) | Sicrhau bod pob hysbysiad gorfodi yn darfod pan fydd gwarchodaeth interim neu restru dros dro yn dod i ben. Cau bylchau yn y darpariaethau presennol nad oes rheswm wedi ei nodi ar eu cyfer. |
| Paragraff 6 | Darpariaeth newydd | Ychwanegu darpariaeth bod achos ar gyfer gwaharddeb yn darfod pan fydd gwarchodaeth interim (neu restru dros dro) yn dod i ben. | 26C.2(iv) | Cywiro hepgoriadau yn Neddf Cynllunio a Digolledu 1991 a Deddf 2016. Sicrhau bod pob achos i orfodi rheolaethau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig yn darfod pan fydd gwarchodaeth interim neu restru dros dro yn dod i ben. Cysoni'r darpariaethau â'r rhai ar gyfer henebion (yn Atodlen A1 i Ddeddf 1979). |
| ***Adran 81 – Adolygu penderfyniad i restru adeilad*** | | | | |
| (2), (6) | 1990 ARh, a. | Symud y sail ar gyfer adolygiad o | 26C.2(iv) | Sicrhau bod yr adran yn ymdrin â'r |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | 2D(6)(a); OS 2017/644, rheoliad 4 | reoliadau i'r adran, gan symleiddio'r geiriad, yn ddarostyngedig i bŵer i ddiwygio'r seiliau. | | mater pwysig hwn, gan gadw hyblygrwydd ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol. |
| (3), (4) | 1990 ARh, a. 2D(3)(a) a (b); OS 2017/644, rheoliad 3 | Ailddatgan gofyniad i gynnal adolygiadau a gwneud penderfyniadau i adlewyrchu'r gofyniad mewn rheoliadau i bob adolygiad gael ei gynnal gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru, ond gan gadw'r pŵer presennol i reoliadau bennu eithriadau. | 26C.2(ii), (iv) | Mae'r sefyllfa o dan y rheoliadau yn adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol o ran ceisiadau ac apelau i Weinidogion Cymru, na ddisgwylir iddi newid. Gan fod pob adolygiad yn cael ei gynnal a'r penderfyniad arno yn cael ei wneud gan bersonau a benodir, gall adran 2D(3) fod yn gamarweiniol. |
| Hepgor darpariaeth i drin penderfyniad gan berson a benodir fel penderfyniad gan Weinidogion Cymru | 1990 ARh, Atodlen 1B, paragraff 2(2) | Hepgor darpariaeth bod penderfyniad a wneir gan berson a benodir ar adolygiad i'w drin fel penderfyniad gan Weinidogion Cymru. | 26C.2(iv) | Nid oes angen y ddarpariaeth o ganlyniad i newid blaenorol. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i adolygiadau gael eu cynnal gan bersonau a benodir, ac nid oes cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau. |
| Hepgor darpariaeth ynghylch dilysrwydd penderfyniad | 1990 ARh, a. 2D(4) ac Atodlen 1B, paragraff 2(3) | Nid yw'r ddarpariaeth mai o dan adrannau 62 a 63 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn unig y caniateir herio dilysrwydd penderfyniad ar adolygiad wedi ei hailddatgan. | 26C.2(iii) | Osgoi dyblygu. Mae adran 182 (adolygiad statudol) eisoes yn ei gwneud yn glir ei bod yn gymwys i benderfyniadau ar adolygiadau. |
| ***Adran 84 – Rhestru dros dro mewn achosion brys*** | | | | |
| (2) | 1990 ARh, a. | Hepgor cyfeiriad at osod hysbysiad diogelu adeilad (a ailenwir yn "hysbysiad | 26C.2(ii) a (iv) | Nid oes angen cyfeirio at "object". Mae cyfeirio at arddangos hysbysiad |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | 4(1) | rhestru dros dro") yn sownd wrth wrthych ("object") ar adeilad, ac ychwanegu darpariaeth sy'n caniatáu i hysbysiad gael ei arddangos mor agos i adeilad ag y bo'n rhesymol ymarferol os nad yw'n rhesymol ymarferol ei arddangos ar yr adeilad neu os gallai hynny ddifrodi'r adeilad. | | ger yr adeilad os nad yw'n rhesymol ymarferol ei arddangos ar yr adeilad yn adlewyrchu'r arferion presennol ac yn egluro effaith gofynion (ar y sail nad yw deddfwriaeth yn cael ei dehongli fel gwneud yr amhosibl neu'r abswrd yn ofynnol). Cyfeirir at achosion pan allai'r adeilad gael ei ddifrodi er cysondeb â'r sefyllfa ar gyfer hysbysiadau stop dros dro o dan adran 9ZI(5) o Ddeddf 1979. Nid oes rheswm i'r darpariaethau fod yn wahanol. |
| ***Adran 87 – Tystysgrif nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhestru adeilad*** | | | | |
| (2) | 1990 ARh, a. 6A(2) | Egluro bod y cyfnod y mae tystysgrif yn cael effaith amdano yn cynnwys y diwrnod y dyroddir y dystysgrif. | 26C.2(ii) | Eglurhad yn seiliedig ar sut y deellir bod y ddarpariaeth yn gweithredu. |
| ***Pennod 2 – Rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig*** | | | | |
| ***Adran 89 – Awdurdodi gwaith drwy gydsyniad adeilad rhestredig*** | | | | |
| (2) | 1990 ARh, a. 8(2) (ac a. 8(4)(b) i (6)) | Hepgor darpariaeth nad yw dymchweliad wedi ei awdurdodi ond os yw'r Comisiwn Brenhinol wedi cael cyfle i gofnodi'r adeilad. Mae adran 97(5) o'r Ddeddf yn cyflawni'r un effaith drwy ei gwneud yn ofynnol i gydsyniad i ddymchwel fod yn ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gael y cyfle hwnnw. | 26C.2(iv) | Symleiddio'r ddarpariaeth a'i chysoni ag adran 2(5) o Ddeddf 1979 (a ailddatgenir yn adran 18(2)(b) o'r Ddeddf), sy'n dibynnu ar amod mewn cydsyniad heneb gofrestredig i'w gwneud yn ofynnol bod cyfle i archwilio heneb yn cael ei roi cyn i'r gwaith gael ei gyflawni. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | Os na chydymffurfir â'r amod, ni fydd y gwaith wedi ei awdurdodi. | | |
| ***Adran 90 – Gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 10(1) | Cynnwys cyfeiriadau at ddarpariaethau ychwanegol a all ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru yn lle'r awdurdod cynllunio. | 26C.2(ii) | Mae'r rhestr bresennol o ddarpariaethau yn anghyflawn; mae'r cyfeiriadau ychwanegol yn egluro'r effaith. |
| (2)(c) | 1990 ARh, a. 10(2)(c) | Ychwanegu cyfeiriad at allu Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei chynnwys mewn cais. | 26C.2(ii) | Egluro y gall y person y gwneir y cais iddo bob amser wneud gwybodaeth yn ofynnol. Mae hyn yn adlewyrchu sut y deellir y ddarpariaeth yn ymarferol. |
| (3) | 1990 ARh, a. 10(3)(a) | Ychwanegu darpariaeth i'r rheoliadau bennu "cynnwys" ceisiadau a'i gwneud yn ofynnol defnyddio ffurflenni a ddyroddir gan Weinidogion Cymru neu eraill. | 26C.2(ii) | Egluro materion y deellir eu bod o fewn cwmpas y pŵer presennol i wneud darpariaeth ynghylch "ffurf" ceisiadau. |
| (4) | 1990 ARh, a. 10(4); OS 2012/793, rheoliad 6(2)(d) | Symud gofyniad i ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth gynnwys datganiad ynghylch sut y bydd y gwaith yn effeithio ar gymeriad adeilad o reoliadau i'r adran. | 26C.2(iv) | Ei symud i'r adran gan mai dyma un o'r materion pwysicaf y mae rhaid i ddatganiad ymdrin ag ef. |
| (6) | 1990 C, a. 327A fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Ailddatgan adran 327A o Ddeddf Cynllunio 1990, fel y'i cymhwyswyd i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 gan adran 89(1). | 26C.2(ii) | Adran 10 yw'r unig adran o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 y mae adran 327A yn berthnasol iddi. Mae ei hailddatgan yma yn egluro ei heffaith ar gyfer adeiladau rhestredig. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Adran 91 – Hysbysiad o gais i berchnogion adeilad*** | | | | |
| (1) i (4) | 1990 ARh, a. 11(1) i (4) | Ail-lunio'r darpariaethau fel y disgrifir pwerau gwneud rheoliadau yn llai manwl, ond gan symud y gwaharddiad ar ystyried ceisiadau nad ydynt yn cydymffurfio o reoliadau i'r adran. | 26C.2(v) | Gwneud y darpariaethau yn fwy cyson ag arferion drafftio arferol ac â darpariaethau cyfatebol yn adran 62 o Ddeddf Cynllunio 1990. Rhoi effaith i Com y Gyfr (*Hysbysu perchnogion o geisiadau am gydsyniad*). |
| Hepgor pŵer i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch ystyr perchennog ("owner") adeilad | 1990 ARh, a. 11(5) a (7); OS 2012/793, rheoliad 7(4) | Hepgor pŵer i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch pwy yw perchennog ("owner") adeilad (ond gan gadw diffiniad o "perchennog" yn yr adran bresennol). | 26C.2(iii) | Nid oes angen y pŵer. Mae'r diffiniad yn y rheoliadau yn union yr un fath â'r un yn yr adran. |
| ***Adran 92 – Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chais*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 10(1) | Ychwanegu cyfeiriadau at bob darpariaeth na chaiff awdurdod cynllunio ystyried cais a wneir iddo oddi tani. | 26C.2(ii) | Llenwi bylchau. Mae adran 10(1) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn anghyflawn gan nad yw'n cyfeirio at adran 81A o'r Ddeddf honno nac adran 327A o Ddeddf Cynllunio 1990. |
| (2)(b), (3), (4) | 1990 ARh, a. 15(5) a (6) | Mae'r pŵer i roi cyfarwyddydau hysbysu wedi ei gyfyngu i osod gofynion ar awdurdodau cynllunio unigol, a rhoddir yn ei le reoliadau ar gyfer gofynion sy'n gymwys yn gyffredinol. | 26C.2(iv) | Yn yr achos hwn ystyrir bod rheoliadau yn briodol ac nad oes angen i ofynion cyffredinol gael eu gosod gan gyfarwyddydau. |
| ***Adran 95 – Hysbysu Gweinidogion Cymru cyn rhoi cydsyniad*** | | | | |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| (4), (5)(a) | 1990 ARh, a. 15(1) a (6) | Mae cyfarwyddydau sy'n eithrio'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru cyn rhoi cydsyniad wedi eu cyfyngu i awdurdodau cynllunio unigol, a rhoddir yn eu lle reoliadau ar gyfer gwneud eithriadau sy'n gymwys yn gyffredinol. | 26C.2(iv) | Yn yr achos hwn ystyrir bod rheoliadau yn briodol ac nad oes angen i ofynion cyffredinol gael eu gosod gan gyfarwyddydau. |
| Darpariaeth ynghylch effaith cyfarwyddyd | 1990 ARh, a. 15(2) | Hepgor darpariaeth ynghylch effaith cyfarwyddyd sy'n datgymhwyso gofyniad hysbysu. | 26C.2(iii) | Nid oes angen adran 15(2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 gan ei bod yn datgan yr amlwg. |
| (7) | Darpariaeth newydd | Darpariaeth newydd sy'n nodi ffyrdd y caniateir i reoliadau neu gyfarwyddydau bennu disgrifiad o geisiadau. | 26C.2(ii) | Egluro'r cwmpas y deellir sydd gan y pŵer presennol i roi cyfarwyddyd, a rhoi enghreifftiau. |
| ***Adran 96 – Rhoi neu wrthod cydsyniad*** | | | | |
| (3) | 1990 ARh, a. 16(3) | Ychwanegu cyfeiriad at gydsyniad yn cael effaith er budd nid yn unig yr adeilad rhestredig ond hefyd y tir y mae arno. | 26C.2(ii) | Egluro effaith cydsyniad, yn enwedig pan fo'r cydsyniad ar gyfer dymchwel adeilad yn llwyr. |
| ***Adran 97 – Pŵer i roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau*** | | | | |
| (5), (6), (8), (9) | 1990 ARh, a. 8(2), (4) a (5) | Ychwanegu gofyniad i gydsyniad i ddymchwel fod yn ddarostyngedig i amod y bydd y Comisiwn Brenhinol yn cael cyfle i gofnodi'r adeilad, yn lle darpariaeth nad yw'r gwaith wedi ei awdurdodi oni bai y rhoddir y cyfle hwnnw. | 26C.2(iv) | Gweler y nodyn ar gyfer adran 89(2). |
| ***Adran 98 – Amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i'r gwaith ddechrau ynddo*** | | | | |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| (1), (2) | 1990 ARh, a. 18(1) a (2) | Hepgor geiriad i'w gwneud yn glir y caiff amod a osodir o dan y ddarpariaeth hon bennu unrhyw gyfnod y mae rhaid i'r gwaith ddechrau ynddo, a bod y cyfnod o 5 mlynedd yn gyfnod diofyn nad yw ond yn gymwys os na phennir cyfnod. | 26C.2(ii) | Egluro effaith y ddarpariaeth, yn y ffordd a argymhellwyd gan CG 383 argymhelliad 8-14 mewn perthynas â'r ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| | 1990 ARh, a. 18(1) i (2C); 2004, a. 51(4) | Hepgor diwygiadau i adran 18 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 a fyddai'n lleihau'r cyfnod diofyn ar gyfer dechrau gwaith i 3 blynedd ond yn ei estyn yn achos her gyfreithiol. | 26C.2(iii) | Nid yw'r diwygiadau wedi eu dwyn i rym ac mae Cadw yn ystyried nad ydynt yn debygol o gael eu dwyn i rym. |
| (3)(b) | OS 2021/1177, rheoliad 13 a'r Atodlen | Symud darpariaeth nad yw adran 18 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn gymwys i gydsyniad a roddir gan gytundeb partneriaeth o reoliadau i'r adran. | 26C.2(iv) | Mae'r ddarpariaeth wedi ei symud i'r adran gan ei bod yn newid cymhwysiad yr adran. |
| ***Adran 99 – Cais i amrywio neu ddileu amodau*** | | | | |
| (3) | 1990 ARh, a. 19(3) | Diwygio'r rhestr o ddarpariaethau sy'n gymwys i geisiadau i amrywio neu ddileu amodau, er mwyn eithrio'r gofyniad am ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth, ond cynnwys pŵer i wrthod ceisiadau tebyg. | 26C.2(iv) | Sicrhau bod darpariaethau sy'n briodol ar gyfer ceisiadau i amrywio a dileu amodau yn cael eu cymhwyso, ac nad yw darpariaethau nad ydynt yn briodol yn cael eu cymhwyso. |
| Hepgor gwaharddiad ar estyn y cyfnod ar gyfer dechrau | 1990 ARh, a. 19(5); 2004, a. 51(5) | Hepgor diwygiad sy'n mewnosod adran 19(5) newydd yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 a fyddai'n atal amodau rhag cael eu hamrywio i estyn y cyfnod y | 26C.2(iii) | Nid yw'r diwygiad wedi ei ddwyn i rym ac mae Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddwyn i rym. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| gwaith (nid yw mewn grym) | | mae rhaid i'r gwaith ddechrau ynddo. | | |
| ***Adran 100 – Yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio neu fethiant awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad*** | | | | |
| (4) | 1990 ARh, a. 20(2) a (3) | Hepgor darpariaeth yn y Ddeddf sy'n pennu'r cyfnod penderfynu ar gyfer ceisiadau i gymeradwyo manylion, fel y bydd cyfnodau penderfynu ar gyfer pob cais y mae'r adran yn gymwys iddo yn cael eu gosod gan reoliadau. | 26C.2(iv) | Newid i wella cysondeb drwy sicrhau bod pob cyfnod yn cael ei nodi mewn un man. Rheoliadau yw'r man hwnnw gan mai manylyn gweithdrefnol yw'r mater hwn a all newid o bryd i'w gilydd. |
| ***Adran 101  – Y weithdrefn ar gyfer gwneud apêl*** | | | | |
| (3) | 1990 ARh, a. 21(1), (9)(b) | Ychwanegu geiriad i egluro y caiff darpariaeth a wneir drwy reoliadau ynghylch y cyfnod ar gyfer cyflwyno hysbysiad o apêl gynnwys darpariaeth i estyn y cyfnod. | 26C.2(ii) | Gwneud darpariaeth benodol ynghylch materion y deellir eu bod o fewn y pwerau presennol, i wella cysondeb â darpariaethau eraill ynghylch gosod terfynau amser. Mae OS 2012/793, rheoliad 12(1) eisoes yn darparu ar gyfer estyn y terfyn amser ar gyfer apelio. |
| ***Adran 102 – Cyfyngiad ar amrywio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl*** | | | | |
| (2) | 1990 ARh, a. 21(4B); OS 2012/793, rheoliad 12B(2) | Symud darpariaeth ar gyfer ymgynghori pellach o reoliadau i'r adran a'i haralleirio i egluro y bydd unrhyw ofyniad am ymgynghori pellach yn cael ei osod gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddydau. | 20C.2(ii) a (iv) | Nid oes angen pŵer gwneud rheoliadau, ond mae'r is-adran yn egluro sut y byddai ymgynghori pellach yn ofynnol. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Adran 103 – Penderfyniad ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl*** | | | | |
| Hepgor cyfeiriadau at opsiwn gweithdrefnol a ddewisir gan yr apelydd | 1990 ARh, a. 20A(3)(c) a (4)(c) | Hepgor darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyfle i apelydd i newid unrhyw opsiwn y mae'r apelydd wedi ei ddewis mewn perthynas â gweithdrefn yr apêl. | 20C.2(iii) | Mae'r darpariaethau wedi eu disbyddu. Pan gawsant eu deddfu, gallai apelydd wneud cais am wrandawiad (o dan Atodlen 3 i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990) ond dilëwyd yr opsiwn hwnnw gan OS 2014/2773. |
| ***Adran 105 – Ceisiadau gan awdurdodau cynllunio a'r Goron*** | | | | |
| Hepgor pŵer i addasu darpariaethau penodol mewn perthynas ag awdurdodau cynllunio | 1990 ARh, a. 82(1) | Hepgor pŵer i addasu darpariaethau penodol ynghylch adeiladau rhestredig mewn perthynas â thir awdurdodau cynllunio. | 26C.2(iii) | Nid yw'r pŵer wedi ei ddefnyddio ac mae Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddefnyddio. |
| (1), (2) | 1990 ARh, a. 82(2) a (3) a 82F | Cyfuno, symleiddio a chysoni pwerau i addasu deddfwriaeth mewn perthynas â cheisiadau gan awdurdodau cynllunio a'r Goron. Egluro'r mathau o geisiadau y maent yn gymwys iddynt. | 26C.2(ii), (iv) | Mae'r rhestr o ddarpariaethau y caniateir eu diwygio yn adran 82(3) yn anghywir (gan ei bod yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn berthnasol i geisiadau), tra bo'r rhestr yn adran 82F yn ymddangos yn rhy eang.<br>Nid yw'n hollol glir i ba geisiadau y mae'r pwerau yn gymwys, ond nid oes rheswm dros eithrio unrhyw fath o gais y mae'r Ddeddf yn darparu ar |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ei gyfer. |
| (3) | 1990 ARh, a. 82(4) | Estyn y pŵer penodol i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud i Weinidogion Cymru i geisiadau gan y Goron; hepgor pŵer i ddarparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau gan Weinidogion. | 26C.2(ii), (iii) | Sicrhau bod pwerau yn gyson ac adlewyrchu'r effaith y deellir y mae'r pwerau eisoes yn ei chael. Hepgor darpariaeth ynghylch hysbysiadau nad oes ei hangen. |
| ***Adran 106 – Ceisiadau sy'n ymwneud â gwaith brys ar dir y Goron*** | | | | |
| (7) | 1990 ARh, a. 82B(11) | Rhoi darpariaeth sy'n cymhwyso'r darpariaethau gweithdrefnol yn Rhan 5 o'r Ddeddf, yn lle darpariaeth sy'n cymhwyso adran 12(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (ynghylch gwrandawiadau) i geisiadau brys gan y Goron. | 26C.2(iv) | Cywiro gwall. Nid yw adran 12(4) yn gymwys mwyach i Weinidogion Cymru yn rhinwedd OS 2014/2773, a gyflwynodd adran newydd 88E yn ei lle. Dylai fod wedi cymhwyso adran 88E i geisiadau brys gan y Goron. |
| ***Adran 107 – Addasu a dirymu cydsyniad*** | | | | |
| Hepgor dyletswyddau i roi sylw i ystyriaethau perthnasol | 1990 ARh, a. 23(2) a 26(2) | Hepgor gofyniad i awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ystyriaethau perthnasol wrth arfer pwerau i ddirymu neu addasu cydsyniad. | 26C.2(iii) | Yn wreiddiol, roedd y darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol rhoi sylw i'r cynllun datblygu. Diddymwyd y gofyniad hwnnw gan Ddeddf 2004, felly nid yw'r darpariaethau hyn yn ychwanegu dim at ddyletswyddau cyffredinol o dan gyfraith weinyddol. |
| Hepgor darpariaeth ynghylch effaith | 1990 ARh, a. 26(8) | Hepgor darpariaeth bod gorchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael yr un effaith â gorchmynion a wneir gan | 26C.2(iii) | Nid oes angen y ddarpariaeth gan fod y Ddeddf yn nodi effaith gorchmynion yn glir (e.e. at |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru | | awdurdod cynllunio. | | ddibenion digolledu a dilysrwydd). |
| ***Atodlen 8 – Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig*** | | | | |
| 3(3), (4) | 1990 ARh, a. 25(2) | Ychwanegu geiriad i egluro mai effaith person yn rhoi hysbysiad yw bod rhaid i'r gorchymyn fynd drwy weithdrefn sy'n cynnwys cadarnhad Gweinidogol. | 26C.2(ii) | Egluro'r ystyr y deellir sydd i'r darpariaethau presennol. |
| ***Adran 109 – Hysbysiad prynu pan fo cydsyniad wedi ei wrthod, wedi ei roi yn ddarostyngedig i amodau, wedi ei addasu neu wedi ei ddirymu*** | | | | |
| (2), (3) | 1990 ARh, a. 32(1) a (4A) | Rhoi gofyniad i gyflwyno hysbysiad prynu i'r awdurdod cynllunio (gan gynnwys bwrdd cydgynllunio), yn lle gofyniad i'w gyflwyno i gyngor neu awdurdod Parc Cenedlaethol. | 26C.2(v) | Sicrhau bod yr hysbysiad prynu yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod a wnaeth y penderfyniad neu'r gorchymyn a arweiniodd at yr hysbysiad. Rhoi effaith i Com y Gyfr (*Hysbysiad o hysbysiad prynu*). |
| (6) | 1990 ARh, a. 32(4) | Egluro a chysoni gofynion i anwybyddu datblygiad y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer a gwaith y mae angen cydsyniad ar ei gyfer; hepgor cyfeiriad at Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio 1990. | 26C.2(ii), (iii), (iv) | Dileu anghysondebau nad oes rheswm wedi ei nodi ar eu cyfer; egluro effaith y ddarpariaeth; hepgor cyfeiriad nad yw'n cael effaith ymarferol ac y dylid bod wedi ei ddiddymu. |
| (7) | Newydd | Ychwanegu darpariaeth nad yw adeilad yn un nad oes modd gwneud defnydd rhesymol fuddiol ohono os achoswyd ei | 26C.2(ii) | Egluro effaith yr adran yn seiliedig ar benderfyniad y Llys Apêl yn *Balco Transport Services v Secretary of State* |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | gyflwr gan gyflawni gwaith heb ei awdurdodi. | | *for the Environment (No. 2)* [1986] 1 WLR 88, a pharagraff 18 o Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 22/83, *Purchase Notices*. |
| ***Adran 111 - Darpariaeth bellach ynghylch cyflwyno hysbysiad prynu*** | | | | |
| (1), (3) | 1990 ARh, a. 32(1); OS 2012/793, rheoliad 13(1) a (2) | Mae'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno hysbysiad prynu, a phŵer i'w estyn, wedi eu symud o reoliadau i'r adran, ac mae'r terfyn amser wedi ei egluro. | 26C.2(ii), (iv) | Nid yw'r gofynion wedi newid ers amser hir iawn (os erioed): gwnaed yr un ddarpariaeth yn rheoliad 7 o OS 1972/1362. Mae'r adeg pan fydd y terfyn amser yn dechrau wedi ei hegluro yn seiliedig ar sut y deellir ei fod yn gweithredu. |
| (2) | Newydd | Darpariaeth newydd bod y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hysbysiad prynu, mewn achos sy'n ymwneud â gwrthod cydsyniad neu ei roi gydag amodau, os oes apêl i Weinidogion Cymru, yn dechrau pan fyddant yn penderfynu'r apêl. | 26C.2(ii) | Egluro effaith darpariaethau, yn y ffordd a argymhellwyd gan CG 383 argymhelliad 11-5 mewn perthynas â'r ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| (6), (7) | Newydd | Darpariaeth newydd na chaniateir diwygio hysbysiad prynu ond y caniateir cyflwyno hysbysiadau pellach yn lle hysbysiadau cynharach. | 26C.2(ii) | Eglurhad yn seiliedig ar benderfyniad y Llys Apêl yn *White v Herefordshire Council* [2008] 1 WLR 954, fel yr argymhellwyd gan CG 383 argymhelliad 11-6 mewn perthynas â'r ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Atodlen 9 – Camau gweithredu yn dilyn cyflwyno hysbysiad prynu*** | | | | |
| Paragraff 1(7) | Newydd | Ychwanegu darpariaeth na chaiff awdurdod dynnu'n ôl hysbysiad i drafod telerau a drinnir fel pe bai wedi ei gyflwyno yn rhinwedd derbyn hysbysiad prynu. | 26C.2(iv) | Cywiro gwall ymddangosiadol. Roedd y ddarpariaeth gyfatebol yn adran 208 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gymwys i hysbysiadau prynu adeiladau rhestredig, ac mae'n ymddangos mai camgymeriad oedd ei hepgor o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. |
| Paragraff 3(1) | 1990 ARh, a. 34(2) | Gofyniad i hysbysu awdurdod cynllunio yn lle gofynion ar wahân i hysbysu cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ac awdurdod cynllunio os yw'n fwrdd cydgynllunio. | 26C.2(v) | O ganlyniad i newid sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad prynu gael ei gyflwyno i awdurdod cynllunio. (Gweler y nodyn ar gyfer adran 109(2) a (3).) |
| Paragraff 4(3) | 1990 ARh, a. 36(2) | Ychwanegu geiriau i'w gwneud yn glir nad yw'r ddarpariaeth yn gymwys ond pan fo hysbysiad prynu wedi ei anfon at Weinidogion Cymru. | 26C.2(ii) | Eglurhad i adlewyrchu penderfyniad y Llys Apêl yn *White v Herefordshire Council*. |
| | | Diwygio darpariaeth ynghylch camau sy'n atal cadarnhad tybiedig o hysbysiad prynu fel na fydd hysbysiad nad yw Gweinidogion yn cynnig ei gadarnhau ("do not propose to") yn ddigonol, dim ond penderfyniad i beidio â'i gadarnhau. | 26C.2(iv) | Cywiro anghysondeb yn y darpariaethau nad oes rheswm wedi ei nodi ar ei gyfer (gan gynnwys gan Willis J yn *Sheppard v Secretary of State for the Environment* [1975] 1 EGLR 133). |
| Paragraff 4(7) | Newydd | Ychwanegu darpariaeth na chaiff awdurdod dynnu'n ôl hysbysiad i drafod | 26C.2(iv) | Gweler y nodyn ar gyfer paragraff 1(7) o Atodlen 9. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | telerau a drinnir fel pe bai wedi ei gyflwyno yn sgil cadarnhau hysbysiad prynu. | | |
| ***Pennod 3 – Cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig*** | | | | |
| ***Adran 113 – Cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig*** | | | | |
| (6) a (7) | 1990 ARh, a. 26L(6)(a) a (7) | Egluro effaith y geiriad presennol ynghylch cytundebau sy'n rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau; hepgor disgrifiad o fathau o amod. | 26C.2(ii) a (iii) | Mae'r geiriad presennol yn awgrymu disgresiwn ynghylch pa un ai i gynnwys amodau mewn cytundeb. Nid felly y deellir y ddarpariaeth yn ymarferol. Mae'r cyfeiriad at fathau o amod yn ddiangen gan ei bod yn glir bod cytundeb yn rhoi cydsyniad adeilad rhestredig y mae adran 97 yn gymwys iddo. |
| ***Adran 114 – Darpariaeth bellach ynghylch cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig*** | | | | |
| (2)(a) i (c), (6) | OS 2021/1177, rheoliad 3(1) a 7 | Symud darpariaethau ynghylch cynnwys cytundeb a materion i'w hystyried o reoliadau i'r adran. | 26C.2(iv) | Eu symud i'r adran er cysondeb â darpariaethau ynghylch ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. |
| ***Adran 115 – Terfynu cytundeb neu ddarpariaeth mewn cytundeb*** | | | | |
| Yr adran gyfan | 1990 ARh, a. 26M(3)(d), (e), (4) a (5); OS 2021/1177, rheoliadau 9(1), (2), (4) a 10 | Symud darpariaeth ar gyfer terfynu cytundebau o reoliadau i'r adran, gyda phŵer i ddiwygio'r adran. | 26C.2(iv) | Ei symud er cysondeb â darpariaethau ynghylch addasu a dirymu cydsyniad adeilad rhestredig. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Atodlen 10 – Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n terfynu cytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig*** | | | | |
| Yr Atodlen gyfan | OS 2021/1177, rheoliadau 9(3) ac 11 | Symud darpariaethau ar gyfer terfynu cytundebau o reoliadau i'r adran, gyda phŵer i ddiwygio'r adran. | 26C.2(iv) | Eu symud er cysondeb â darpariaethau ynghylch addasu a dirymu cydsyniad. |
| Paragraffau 1(5), 2(4) | OS 2021/1177, rheoliad 11(2) | Newid dechrau'r cyfnod ar gyfer gwneud cais am wrandawiad o'r diwrnod y cyflwynir hysbysiad o'r gorchymyn i drannoeth y diwrnod hwnnw. | 26C.2(iv) | Newid er cysondeb â darpariaethau ynghylch gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad. |
| ***Adran 116 – Digollediad pan fo cytundeb neu ddarpariaeth yn cael ei derfynu neu ei therfynu*** | | | | |
| Yr adran gyfan | 1990 ARh, a. 26M(5)(a); OS 2021/1177, rheoliad 12(1) i (5) | Symud darpariaethau ar gyfer digollediad pan fo cytundeb neu ddarpariaeth yn cael ei derfynu neu ei therfynu o reoliadau i'r adran, gyda phŵer i ddiwygio'r adran. | 26C.2(iv) | Eu symud er cysondeb â darpariaethau eraill ynghylch digollediad. |
| ***Pennod 4 – Gorfodi rheolaethau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig*** | | | | |
| ***Adran 119 - Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad stop dros dro*** | | | | |
| (4) | Newydd | Ychwanegu opsiwn i arddangos hysbysiad mor agos i adeilad ag y bo'n rhesymol ymarferol os nad yw'n rhesymol ymarferol ei arddangos ar yr adeilad neu os gallai ei arddangos ar yr adeilad ei ddifrodi. | 26C.2(ii), (iv) | Adlewyrchu'r arferion presennol ac egluro effaith gofynion (ar y sail nad yw deddfwriaeth yn cael ei dehongli fel gwneud yr amhosibl neu'r abswrd yn ofynnol). |
| (5)(a) | 1990 ARh, a. 44B(4) | Ychwanegu darpariaeth i awdurdod gyflwyno hysbysiad i berson y mae'n ystyried ei fod yn "caniatáu" gwaith ac i | 26C.2(iv) | Mae ychwanegu cyfeiriad at bersonau sy'n caniatáu i waith gael ei gyflawni yn sicrhau y bydd hysbysiad yn cael |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | feddiannydd adeilad. | | ei gyflwyno i bawb a fydd yn gyfrifol am dorri'r hysbysiad o dan adran 121.<br>Drwy ychwanegu meddianwyr, y bwriad yw egluro effaith y gyfraith bresennol, fel yr argymhellwyd yn CG 383 argymhelliad 12-6(4) ar gyfer y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| ***Adran 120 – Hyd etc. hysbysiad stop dros dro*** | | | | |
| (5) | 1990 ARh, a. 44B(10) | Mae'r gwaith drafftio yn nodi'r mathau penodol o gamau gorfodi eraill, yn hytrach na dweud eu bod yn *cynnwys* gwaharddeb. | 26C.2(ii) | Egluro'r effaith y deellir y mae'r ddarpariaeth yn ei chael. |
| ***Adran 121 – Y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 44C(1) | Diwygio'r drosedd i gyfeirio at gyflawni gwaith pan fydd hysbysiad stop dros dro yn cael effaith (a hepgor cyfeiriad at hysbysiad sydd wedi ei gyflwyno i berson). | 26C.2(ii) | Egluro a symleiddio'r ddarpariaeth, fel yr argymhellwyd yn CG 383 argymhelliad 12-7(1) ar gyfer y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| ***Adran 122 – Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop dros dro*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 44D(2) | Ychwanegu geiriad i'w gwneud yn glir y bydd a yw gwaith heb ei awdurdodi yn cael ei asesu pan fydd yr hysbysiad yn cymryd effaith. | 26C.2(ii) | Egluro pryd y bydd y cwestiwn yn cael ei asesu at ddibenion digolledu. |
| (3) | 1990 ARh, a. | Newid y geiriad i'w gwneud yn glir bod y | 26C.2(ii) | Egluro pa bryd yn union y mae rhaid |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | 44D(1) | cwestiwn a oes gan berson fuddiant yn yr adeilad i gael ei asesu ar yr adeg y mae hysbysiad yn cymryd effaith (yn hytrach nag ar y diwrnod y mae'n cymryd effaith). | | bod gan berson fuddiant er mwyn gwneud hawliad am ddigolledIad. |
| ***Adran 125 – Amrywio hysbysiad gorfodi a thynnu hysbysiad gorfodi yn ôl*** | | | | |
| (4) | Newydd | Darpariaeth newydd i egluro nad yw gofyniad hysbysu ond yn gymwys pan fo hysbysiad gorfodi wedi ei gyflwyno. | 26C.2(ii) | Nodi'r effaith y deellir y mae'r ddarpariaeth eisoes yn ei chael. |
| ***Adran 126 - Effaith rhoi cydsyniad adeilad rhestredig ar hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (2) | 1990 ARh, a. 44(1) | Ychwanegu geiriad i egluro bod yr adran yn gymwys pan na fo hysbysiad gorfodi wedi dod i rym eto. | 26C.2(ii) | Nodi'r effaith y deellir y mae'r ddarpariaeth eisoes yn ei chael. |
| ***Adran 127 – Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (5) | 1990 ARh, a. 39(4) | Hepgor gofyniad i'r datganiad nodi sail yr apêl fel y gellir rhoi'r holl ofynion mewn perthynas â chynnwys y datganiad mewn rheoliadau. | 26C.2(iv) | Osgoi sefyllfa lle y byddai'r adran yn dyblygu rheoliadau, fel yr argymhellwyd yn CG 383 argymhelliad 12-14 ar gyfer y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| ***Adran 128 – Penderfynu apêl*** | | | | |
| (3)(b) | 1990 ARh, a. 41(6) | Hepgor cyfeiriad at ryddhau (h.y. dileu) cyfyngiad ("limitation") ar gydsyniad adeilad rhestredig. | 26C.2(iv) | Dileu'r cyfeiriad gan na ddefnyddir y term "limitation" yn unman arall yn y darpariaethau. |
| ***Adran 130 – Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi*** | | | | |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| Yr adran gyfan | 1990 ARh, a. 42(3)(b) a (4); 1936, a. 289; OS 2012/793, rheoliad 15(1) | Hepgor pŵer i gymhwyso adran 289 o Ddeddf 1936 gydag addasiadau, ac ailddatgan adran 289 (fel y'i haddaswyd) yn y Ddeddf. | 26C.2(iii), (iv) | Ei symud oherwydd pwysigrwydd y ddarpariaeth a chan nad yw sut y mae adran 289 yn gymwys wedi newid ers amser hir iawn (ers o leiaf OS 1972/1362). Argymhellwyd y newid hwn yn CG 383 argymhelliad 18-13(2) ar gyfer y pŵer cyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| ***Adran 132 – Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (2), (3), (7), (8) | 1990 ARh, a. 42(3)(a) ac (c); 1936, a. 276 a 294; OS 2012/793, rheoliad 15(1) | Hepgor pwerau i gymhwyso adrannau 276 a 294 o Ddeddf 1936 gydag addasiadau, ac ailddatgan adrannau 276 a 294 (fel y'u haddaswyd) yn y Ddeddf. | 26C.2(iv) | Eu symud oherwydd pwysigrwydd y darpariaethau a chan nad yw sut y maent yn gymwys wedi newid ers amser hir iawn (ers o leiaf OS 1972/1362). Argymhellwyd y newid hwn yn CG 383 argymhelliad 18-13(1) a (3) ar gyfer y pwerau cyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990. |
| (5) | 1990 ARh, a. 42(5); OS 2012/793, rheoliad 15(2) | Symud darpariaeth i gostau gwaith fod yn bridiant ar y tir o reoliadau i'r adran, a hepgor pŵer gwneud rheoliadau. | 26C.2(iv) | Ei symud oherwydd pwysigrwydd y ddarpariaeth ac er cysondeb â darpariaethau eraill ynghylch adennill costau. |
| (7), (8) | OS 2012/793, rheoliad 15(1); 1936, a. 276(3) | Ailddatgan adran 276 o Ddeddf 1936 gan hepgor is-adran (3), sy'n darparu nad yw'r adran yn gymwys i sbwriel ("refuse") a symudir ymaith gan awdurdod lleol. | 26C.2(iii) | Mae'n ymddangos mai bwriad eithrio sbwriel oedd osgoi unrhyw wrthdaro rhwng adran 276 a darpariaethau eraill yn Neddf 1936 sy'n caniatáu i wastraff gael ei werthu. Nid yw'n ymddangos yn berthnasol nac yn |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | angenrheidiol pan fo awdurdod yn cyflawni gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi. |
| ***Adran 134 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 46(1) | Cynnwys geiriad (o adran 38 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990) yn nodi amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad gorfodi oddi tanynt. | 26C.2(ii) | Egluro bod y pŵer ar gael o dan yr un amgylchiadau â phŵer awdurdod cynllunio. |
| (4) | 1990 ARh, a. 46(4) | Cymhwyso darpariaeth sy'n addasu'r cyfeiriadau at awdurdod cynllunio yn adran 42 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 i bob adran berthnasol o'r Ddeddf sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi. | 26C.2(ii) | Egluro'r sefyllfa bresennol, sef y bwriedir, o reidrwydd, i'r addasiad gymhwyso i bob cyfeiriad at awdurdod cynllunio. |
| ***Pennod 5 – Caffael a diogelu adeiladau o ddiddordeb arbennig*** | | | | |
| ***Adran 136 – Pŵer awdurdod cynllunio i gaffael adeilad drwy gytundeb*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 52(1); 1995, Atodlen 9, paragraff 13(2) | Rhoi pŵer i awdurdod cynllunio gaffael tir drwy gytundeb, yn lle pŵer i naill ai cyngor neu awdurdod Parc Cenedlaethol wneud hynny. | 26C.2(ii), (iv) | Adlewyrchu effaith bresennol y darpariaethau ac mae'r newid yn golygu y byddai unrhyw fwrdd cydgynllunio yn gallu caffael tir. |
| | 1990 ARh, a. 52(1) | Ychwanegu gofyniad i'r adeilad fod yn "gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru" | 26C.2(ii) | Adlewyrchu effaith OS 1999/672 a DLlC 2006. |
| (4) | 1990 ARh, a. 52(2) | Hepgor addasiad o Ran 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 mewn perthynas â thir a gaffaelir gan Weinidogion neu | 26C.2(iii) | Mae'n ymddangos mai gwall oedd cynnwys yr addasiad hwn mewn cydgrynoadau cynharach. Nid oes ei |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | ymgymerwyr statudol. | | angen gan nad yw'r adran yn darparu i dir gael ei gaffael gan Weinidogion nac ymgymerwyr statudol. |
| ***Adran 137 – Pwerau i gaffael adeilad rhestredig yn orfodol at ddiben ei ddiogelu*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 47(1) a (3) | Rhoi gofyniad i Weinidogion fod wedi eu bodloni bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros brynu gorfodol, yn lle gofyniad iddynt fod wedi eu bodloni bod prynu gorfodol yn hwylus ("expedient"). | 26C.2(ii) | Adlewyrchu polisi sefydledig ar brynu gorfodol, a nodir bellach yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/2019, *Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down'* (Hydref 2020) ac a gadarnhawyd gan y Llys Apêl mewn achosion fel *R (Clays Lane Housing Co-operative) v Housing Corporation* [2005] 1 WLR 2229. |
| (2)(a) | 1990 ARh, a. 47(1)(a) a (7); 1995, Atodlen 9, paragraff 13(1) | Pŵer i awdurdod cynllunio gaffael tir yn orfodol, yn lle pŵer i naill ai cyngor neu awdurdod Parc Cenedlaethol wneud hynny. | 26C.2(ii), (iv) | Adlewyrchu effaith bresennol y darpariaethau ac mae'r newid yn golygu y byddai unrhyw fwrdd cydgynllunio yn gallu caffael tir yn orfodol. |
| ***Adran 144 – Gwaith brys i ddiogelu adeilad rhestredig*** | | | | |
| (5) | 1990 ARh, a. 54(5) a (5A) | Egluro bod 7 niwrnod o rybudd yn golygu 7 niwrnod clir. | 26C.2(ii) | |
| ***Adran 147 – Camau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael*** | | | | |
| (2) | 1990 ARh, a. 56A(2) (nid yw mewn grym); | Hepgor cyfeiriadau at reoliadau sy'n pennu terfyn amser ar gyfer cyflawni gwaith ac sy'n gwneud darpariaeth ar | 26C.2(iv) | Nid oes angen y cyfeiriadau. Mae'n amlwg bod terfyn amser ar gyfer cyflawni gwaith o fewn y pŵer. Mae |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | 2016, a. 31(1) | gyfer apelau mewn perthynas â throseddau. | | darpariaeth ar gyfer apelau mewn perthynas â throseddau eisoes yn bodoli, ac mewn perthynas â sancsiynau sifil am droseddau gellir gwneud darpariaeth o dan Ran 3 o Ddeddf 2008. |
| ***Adran 150 – Grant gan Weinidogion Cymru ar gyfer atgyweirio neu gynnal a chadw adeilad, gardd etc.*** | | | | |
| (1) | 1953, a. 4 | Hepgor darpariaethau yn adran 4 o Ddeddf 1953 sy'n pennu telerau y caniateir rhoi grantiau yn unol â hwy ac sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Chyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru. | 26C.2(iii) | Mae'r darpariaethau ynghylch telerau grantiau yn datgan yr amlwg, ac mae'r gofyniad ymgynghori wedi ei ddisbyddu gan fod y Cyngor wedi ei ddiddymu. |
| | 1953, a. 4; 1967, a. 4 | Hepgor darpariaeth yn adran 4 o Ddeddf 1967 bod y pŵer yn adran 4 o Ddeddf 1953 yn cynnwys pŵer i roi benthyciadau. | 26C.2(iii) | Hepgor y pŵer gan nad yw'n ychwanegu dim at bwerau cyffredinol Gweinidogion Cymru o dan DLlC 2006. |
| (7) | 1953, a. 4A(8) | Rhoi darpariaeth sy'n atal adennill symiau sydd, gyda'i gilydd, yn fwy na swm y grant o dan bob amgylchiad, yn lle darpariaeth sy'n atal adennill symiau sydd, gyda'i gilydd, yn fwy na swm y grant o ganlyniad i fwy nag un toriad o amod neu warediad. | 26C.2(iv) | Newid er cysondeb ag adran 58 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a newidiwyd yn yr un ffordd i roi effaith i argymhelliad 45 adroddiad Comisiwn y Gyfraith *Report on the Consolidation of Certain Enactments relating to Town and Country Planning* (Comisiwn y Gyfraith Rhif 189, Cmd 958, Chwefror 1990). |
| ***Adran 151 – Gweinidogion Cymru yn derbyn gwaddol ar gyfer cynnal adeilad*** | | | | |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| (2) (diffiniad o "adeilad perthnasol") | 1953, a. 8(1) | Hepgor cyfeiriad at adeilad a gaffaelir gan Weinidogion o dan adran 5 o Ddeddf 1953. | 26C.2(iii) | Nid yw'r cyfeiriad yn ychwanegu dim at y cyfeiriad at adeilad y mae Gweinidogion yn ystyried ei fod o ddiddordeb eithriadol; ac mae Atodlen 13 i'r Ddeddf yn diwygio adran 5 fel nad yw'n gymwys mwyach i Gymru. |
| (2) (paragraff (a) o'r diffiniad o "adeilad perthnasol") | 1953, a. 8(1)(b) | Newid cyfeiriad at adeilad o ddiddordeb eithriadol ("outstanding") i gyfeiriad at ddiddordeb "arbennig". | 26C.2(ii) | Newid er cysondeb ac eglurder. Nid ystyrir bod y profion o ddiddordeb "arbennig" ac "eithriadol" yn wahanol yn ymarferol. |
| ***Pennod 6 – Cyffredinol*** | | | | |
| ***Adran 152 – Pwerau i fynd ar dir*** | | | | |
| (3), (5) | 1990 ARh, a. 88(2) | Rhesymoli'r rhestr o ddibenion y caniateir arfer pwerau mynediad atynt, a hepgor cyfeiriadau at ddarpariaethau amherthnasol. | 26C.2(ii), (iii) | Mae'r dibenion a hepgorir yn anghywir neu'n dyblygu dibenion eraill. Mae adran 88 yn dweud ei bod yn rhoi pwerau mynediad mewn cysylltiad â chynigion ar gyfer hysbysiadau neu orchmynion o dan adrannau amrywiol, nad yw'r mwyafrif ohonynt yn rhoi pwerau i ddyroddi hysbysiadau neu orchmynion. |
| | 1990 ARh, a. 88(2)(a) ac (c); 2016, a. 31(3) | Mae'r rhestr o ddibenion y caniateir arfer pwerau mynediad atynt yn hepgor cyfeiriadau at reoliadau ynghylch diogelu | 26C.2(iv) | Gadewir y mater i reoliadau yn hytrach na'i nodi yn y Ddeddf. Os gwneir rheoliadau o dan adran 147 |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | (nid yw mewn grym eto) | adeilad rhestredig sydd mewn cyflwr gwael. Byddai'r cyfeiriadau yn cael eu mewnosod gan adran 31(3) o Ddeddf 2016. | | o'r Ddeddf a bod angen pwerau mynediad, bydd y rheoliadau yn gallu cymhwyso neu ddiwygio adran 152. |
| (4) | 1990 ARh, a. 88(3A) | Ychwanegu pŵer i fynd ar dir i benderfynu a ddylai hysbysiad stop dros dro gael ei ddyroddi, a hepgor pŵer i wneud hynny i ystyried hawliad am ddigolledidiad sy'n ymwneud â hysbysiad stop dros dro. | 26C.2(iv) | Cywiro bwlch yn y ddarpariaeth ac osgoi dyblygu pŵer cyffredinol i fynd ar dir mewn cysylltiad â hawliadau am ddigolledidiad. |
| (9) | 1990 ARh, a. 88(6) | Mewnosod darpariaeth bod y pŵer i gynnal arolwg o dir yn cynnwys penderfynu a oes mwynau yn bresennol. | 26C.2(iv) | Cysoni'r sefyllfa â'r sefyllfa ar gyfer henebion o dan adran 43(3) o Ddeddf 1979 a chywiro anghysondeb. Yn wreiddiol, roedd adran 88(6) yn cyfeirio at fwynau ond diddymwyd y cyfeiriad gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991. Mae'n aneglur pam, gan y gallai presenoldeb mwynau fod yn berthnasol i ddigolledidiad o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. |
| ***Adran 153 – Arfer pŵer i fynd ar dir heb warant*** | | | | |
| (4)(a) | 1990 ARh, a. 88B(2)(a) | Ychwanegu geiriad i egluro pwy gaiff fynnu tystiolaeth o awdurdod person. | 26C.2(ii), (iv) | Egluro effaith y ddarpariaeth a'i chysoni â darpariaethau ar gyfer henebion o dan adran 44(3) o Ddeddf 1979. |
| (9) | 1990 ARh, a. | Diwygiad i gymhwyso'r cyfan o'r diffiniad o "Gweinidog priodol" | 26C.2(iv) | Cywiro bwlch. Mae'r diffiniad o "ymgymerwr statudol" a ddylai fod |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | 88B(10) | ("appropriate Minister") yn adran 265 o Ddeddf Cynllunio 1990 (nid is-adrannau (1) a (3) yn unig) | | yn gymwys i'r adran hon yn cynnwys ymgymerwyr y mae'r "Gweinidog priodol" ("appropriate Minister") wedi ei ddiffinio ar eu cyfer yn adran 265(2) o Ddeddf Cynllunio 1990. |
| ***Adran 155 – Darpariaethau atodol ynghylch pwerau mynediad*** | | | | |
| (5) | Newydd | Ychwanegu terfyn amser ar gyfer hawlio digolledaid am ddifrod. | 26C.2(iv) | Cywiro bwlch a chysoni'r sefyllfa â'r sefyllfa ar gyfer henebion, yn seiliedig ar reoliad 2(1)(e) o OS 2017/641. |
| ***Adran 156 – Adeiladau crefyddol esempt*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 60(1) a (2) | Gwrthdroi'r sefyllfa ddiofyn, fel na fydd adeiladau crefyddol yn esempt ond i'r graddau a ddarperir mewn rheoliadau, yn hytrach na bod yn esempt oni bai bod rheoliadau yn cyfyngu ar yr esemptiad neu yn ei eithrio. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu yn well y sefyllfa bresennol o dan OS 2018/1087, sy'n dileu'r esemptiad yn llwyr ond wedyn yn ailesemptio rhai adeiladau. |
| (3)(e) | 1990 ARh, a. 60(6)(e) | Hepgor pŵer i ddiwygio Deddf Cynllunio 1990. | 26C.2(iii) | Nid yw'r pŵer wedi ei ddefnyddio ac nid oes angen amdano wedi ei nodi. |
| (4)(b) | 1990 ARh, a. 60(3) | Hepgor cyfeiriad at gapel sy'n ffurfio rhan o dŷ preswyl esgobol. | 26C.2(iii) | Nid yw'r cyfeiriad yn berthnasol i Gymru gan nad oes unrhyw eglwysi cadeiriol Eglwys Loegr na thai preswyl esgobol yng Nghymru. |
| ***Adran 157 – Dehongli'r Rhan hon*** | | | | |
| Diffiniad o "awdurdod lleol" | 1990 C, a. 336(1), fel y'i | Cynnwys awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y diffiniad o "awdurdod | 26C.2(ii) | Egluro bod awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu trin fel |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 91(2) | lleol". | | awdurdodau lleol at ddibenion y Rhan hon. Mae pob darpariaeth a ailddatgenir yn y Rhan hon sy'n gymwys i awdurdod lleol yn gymwys hefyd i awdurdod Parc Cenedlaethol: gweler adrannau 32(4A) a 93(1)(a) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a pharagraff 13(4) i (6) o Atodlen 9 i Ddeddf 1995. |
| ***RHAN 4 – ARDALOEDD CADWRAETH*** | | | | |
| ***Adran 158 – Dynodi ardaloedd cadwraeth*** | | | | |
| Hepgor darpariaeth sy'n gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cynllunio i adolygu achosion blaenorol o arfer swyddogaethau dynodi | 1990 ARh, a. 69(2) | Hepgor adran 69(2) o'r ailddatganiad. | 26C.2(iii) | Ei hepgor i osgoi dyblygu ag adran 69(1). Mae natur barhaus y ddyletswydd i ddynodi yn golygu nad oes angen dyletswydd i adolygu. |
| Hepgor pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi ardaloedd cadwraeth | 1990 ARh, a. 69(3) | Hepgor adran 69(3) o'r ailddatganiad. | 26C.2(iii) | Nid yw Gweinidogion Cymru erioed wedi defnyddio'r pŵer hwn. Ei hepgor gan nad oes ei angen. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| Hepgor gofynion i Weinidogion Cymru ymgynghori a rhoi hysbysiad o ddynodiadau | 1990 ARh, a. 70(3) a (6) | Hepgor adran 70(3) a (6) o'r ailddatganiad. | 26C.2(iii) | O ganlyniad i hepgor pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi o dan adran 69(3). |
| (2) | Gwaith drafftio newydd | Ychwanegu darpariaeth sy'n datgan y caiff awdurdod cynllunio amrywio neu ganslo dynodiad. | 26C.2(ii) | Mae adran 70(5) a (6) yn tybio bod y pwerau hyn yn bodoli, ond mae eu nodi yn benodol yn gwella eglurder. |
| ***Adran 159 – Dyletswydd i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth*** | | | | |
| (2) | 1990 ARh, a. 71(2) | Ychwanegu darpariaeth sy'n caniatáu i gyfarfod gael ei gynnal y tu allan i'r ardal gadwraeth pan na fo lle addas yn yr ardal gadwraeth. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu'r gwirionedd ymarferol gan y gall fod yn anymarferol cynnal cyfarfod yn yr ardal gadwraeth ei hun (e.e. dim cyfleusterau ar gael). |
| ***Adran 160 – Arfer swyddogaethau cynllunio: dyletswydd gyffredinol sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 72(1) | Newid i'r geiriad Saesneg, sef rhoi gofyniad i "have *special regard*" i faterion penodol sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth, yn lle'r gofyniad "*special attention* shall be paid" i'r materion hynny. | 26C.2(ii) | Newid er cysondeb â dyletswydd gyfatebol ar gyfer adeiladau rhestredig (a ailddatgenir fel adran newydd 314A o Ddeddf Cynllunio 1990). Deellir bod i'r ddau brawf yr un ystyr. |
| (2) | 1990 ARh, a. 72(2) | Hepgor swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 a Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) 1990 o swyddogaethau y mae dyletswydd "sylw arbennig" yn | 26C.2(iii) | Adlewyrchu'r ffaith nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i bethau y gellid eu gwneud o dan y Deddfau hynny. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | gymwys iddynt. | | |
| Hepgor darpariaeth ynghylch cyfeiriadau at Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 | 1990 ARh, a. 72(3) | Hepgor darpariaeth yn adran 72(3) bod cyfeiriadau at ddarpariaethau Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 yn cynnwys cyfeiriadau atynt fel y cânt effaith yn rhinwedd adran 118(1) o Ddeddf Tai 1996. | 26C.2(iii) | Nid oes angen darpariaeth ynghylch cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ddiwygiedig gan fod adran 25 o'r Ddeddf Deddfwriaeth yn golygu bod cyfeiriadau yn gyfeiriadau at ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd. |
| ***Adran 161 – Gofyniad i ddymchweliad gael ei awdurdodi*** | | | | |
| Hepgor darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am gydsyniad gan awdurdodau cynllunio gael eu gwneud i Weinidogion Cymru | 1990 ARh, a. 74(2) | Hepgor gofyniad i awdurdod cynllunio wneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ardal gadwraeth, ond gyda phŵer i reoliadau addasu darpariaethau mewn perthynas â cheisiadau gan awdurdodau cynllunio (o dan adran 105 fel y'i cymhwysir gan adran 163). | 26C.2(v) | Mae'r newidiadau hyn yn rhoi effaith i Com y Gyfr (*Ceisiadau gan awdurdodau cynllunio am gydsyniad ardal gadwraeth*). |
| Hepgor esemptiad rhag cydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer adeiladau | 1990 ARh, a. 75(1)(b) a (5) i (9) | Hepgor esemptiad eglwysig o'r gofyniad am gydsyniad yn adran 75(1)(b) a (5), a hepgor pwerau i gyfyngu, eithrio neu addasu'r esemptiad yn is-adrannau (7) i (9). (Ond mae adran 161(2)(c) yn rhoi | 26C.2(iii) a (iv) | Adlewyrchu'r ffaith bod yr esemptiad wedi ei ddileu gan erthygl 5 o OS 2018/1087. Ni ddisgwylir iddo gael ei ailgymhwyso. Byddai dymchweliad bron iawn bob amser yn anghyson â |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| eglwysig sydd am y tro yn cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig | | pŵer cyffredinol i esemptio disgrifiadau o adeilad.) | | defnydd parhaus o adeilad at ddibenion crefyddol; a phan na all defnydd crefyddol barhau ar ôl y gwaith, ni all yr esemptiad fod yn gymwys. |
| (2)(c) a (d) | 1990 ARh, a. 75(1)(d), (2) a (3) | Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau sy'n esemptio adeiladau rhag y gofyniad am gydsyniad wedi ei gyfyngu i achosion sy'n ymwneud ag awdurdodau cynllunio unigol, ac yn ei le rhoddir pŵer i wneud rheoliadau sy'n rhoi esemptiadau sy'n gymwys yn gyffredinol. | 26C.2(iv) | Ystyrir bod rheoliadau yn fwy priodol i wneud esemptiadau cyffredinol o ystyried eu heffaith bosibl ar gwmpas y gyfundrefn cydsyniad ardal gadwraeth. |
| Pŵer i amrywio neu ddirymu cyfarwyddydau | 1990 ARh, a. 75(4) | Hepgor y pŵer i amrywio neu ddirymu cyfarwyddydau yn adran 75(4). | 26C.2(iii) | Nid oes ei angen. Mae adran 20 o'r Ddeddf Deddfwriaeth yn gwneud darpariaeth gyffredinol i'r un perwyl. |
| ***Atodlen 11 - Effaith adran 161 yn peidio â bod yn gymwys i adeilad*** | | | | |
| Paragraff 2 | 1990 ARh, a. 75(10) | Egluro nad oes effaith ar atebolrwydd am bob trosedd o dan y Ddeddf oherwydd y ffaith bod yr adran sy'n gwneud cydsyniad ardal gadwraeth yn ofynnol yn peidio â bod yn gymwys i adeilad. | 26C.2(ii) | Dileu cyfeiriadau camarweiniol at droseddau penodol, i adlewyrchu sut y deellir bod y ddarpariaeth yn gweithredu. Ystyrir na fyddai effaith ar atebolrwydd am bob trosedd sy'n ymwneud ag ardal gadwraeth oherwydd bod y gofyniad am gydsyniad ardal gadwraeth yn peidio â bod yn gymwys. |
| Paragraffau 4, 5, | 1990 ARh, a. | Ychwanegu darpariaethau ynghylch | 26C.2(ii) | Egluro'r effaith bod yr angen am |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| 6 | 75(10) ac (11) | effaith yr adran yn peidio â bod yn gymwys i adeilad yn dilyn hysbysiadau stop dros dro, hysbysiadau gorfodi a gwaharddebau. | | gydsyniad ardal gadwraeth yn peidio â bod yn gymwys mwyach i adeilad. |
| ***Adran 163 – Cymhwyso Rhan 3 i ardaloedd cadwraeth*** | | | | |
| Yr adran gyfan | 1990 ARh, a. 74(3); OS 2012/793, Atodlen 3 | Mae addasiadau o ddarpariaethau yn Rhan 3 o'r Ddeddf (sy'n ymwneud â chydsyniad adeilad rhestredig) fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chydsyniad ardal gadwraeth wedi eu symud o reoliadau i'r Ddeddf, gan gadw pŵer Gweinidogion Cymru i wneud addasiadau eraill neu eithriadau yn y dyfodol. | 26C.2(ii) a (iv) | Mae materion allweddol sy'n ymwneud â chydsyniad ardal gadwraeth wedi eu nodi gyda'i gilydd yn y Ddeddf erbyn hyn, yn hytrach na gadael i reoliadau eithrio neu addasu darpariaethau. |
| (1)(a)(i) | Newydd | Ychwanegu darpariaeth sy'n datgymhwyso gofynion yn Rhan 3 i waith gael ei awdurdodi drwy gydsyniad. Nid yw'r darpariaethau cyfatebol yn adrannau 7 ac 8 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi eu datgymhwyso gan reoliad 16 o OS 2012/793 nac Atodlen 3 iddo. | 26C.2(ii) | Osgoi dyblygu gan fod adrannau 7 ac 8 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cael eu *hailddatgan* mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn adrannau 161 a 162 o'r Ddeddf. |
| (1)(a)(ii) | Newydd | Ychwanegu darpariaeth sy'n datgymhwyso gofyniad i ddatganiad ynghylch dyluniad a mynediad gael ei gyflwyno ar y cyd â chais am gydsyniad. Nid yw'r ddarpariaeth gyfatebol yn adran 10 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 | 26C.2(ii) | Adlewyrchu'r ffaith nad yw egwyddorion dylunio na materion mynediad yn berthnasol i waith dymchwel. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | wedi ei datgymhwyso gan reoliad 16 o OS 2012/793 nac Atodlen 3 iddo. | | |
| (1)(b)(i) | Newydd | Ychwanegu darpariaeth sy'n datgymhwyso amddiffyniad pan gyflawnir gwaith heb ei awdurdodi ar adeilad sy'n ddarostyngedig i warchodaeth interim. Nid yw'r amddiffyniad cyfatebol yn adran 9 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi ei ddatgymhwyso gan reoliad 16 o OS 2012/793 nac Atodlen 3 iddo. | 26C.2(ii) | Egluro nad yw amddiffyniad yn berthnasol ac osgoi awgrymu bod gwarchodaeth interim yn gymwys i gydsyniad ardal gadwraeth. |
| (1)(c)(i) a (2)(d) | Newydd | Ychwanegu darpariaethau sy'n cymhwyso pwerau mynediad at ddibenion cydsyniad ardal gadwraeth, yn ddarostyngedig i eithriadau. Nid yw'r pwerau cyfatebol yn adrannau 88 i 88C o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 wedi eu crybwyll yn adran 74(3) nac yn rheoliad 16 o OS 2012/793 nac Atodlen 3 iddo. | 26C.2(ii) | Egluro bod rhaid i bwerau mynediad penodol yn adrannau 152 i 155 fod yn gymwys at ddibenion cydsyniad ardal gadwraeth, gan eithrio eraill sy'n amherthnasol, i adlewyrchu sut y deellir bod y pwerau presennol yn gymwys. Cywiro'r hyn sy'n ymddangos yn amryfusedd. |
| (2) | Newydd | Ychwanegu darpariaeth sy'n esbonio sut y mae darpariaethau Rhan 3 a gymhwysir gan is-adran (1) i'w darllen mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth a chydsyniad ardal gadwraeth. | 26C.2(ii) | Egluro effaith cymhwyso darpariaethau ynghylch cydsyniad adeilad rhestredig i gydsyniad ardal gadwraeth. |
| ***Adran 164 – Gwaith brys i ddiogelu adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth*** | | | | |
| (3) | Newydd | Ychwanegu darpariaeth ynghylch sut y | 26C.2(ii) | Egluro bod cyfeiriadau at adeilad |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | mae darpariaethau penodol i'w darllen pan fo cyfarwyddyd o dan yr adran yn cael effaith mewn perthynas ag adeilad. | | rhestredig i'w darllen fel cyfeiriadau at yr adeilad y mae'r cyfarwyddyd yn gymwys iddo. |
| ***Adran 165 – Grant gan Weinidogion Cymru ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth*** | | | | |
| (1) | 1990 ARh, a. 77(2) | Hepgor darpariaeth bod y pŵer yn adran 77 yn cynnwys pŵer i roi benthyciadau. | 26C.2(iii) | Ei hepgor gan nad yw'n ychwanegu dim at bwerau cyffredinol Gweinidogion Cymru o dan DLlC 2006. |
| | 1990 ARh, a. 77(4) | Hepgor darpariaeth y caniateir rhoi grantiau yn ddarostyngedig i amodau. | 26.C.2(iii) | Ei hepgor gan mai afraid yw dweud hynny. |
| ***Adran 166 - Cytundebau ardaloedd cadwraeth*** | | | | |
| (2) | 1990 ARh, a. 79(1) | Ychwanegu datganiad penodol bod rhaid i adeiladau y mae cytundeb yn ymwneud â hwy fod mewn ardal gadwraeth. | 26C.2(ii) | Egluro sut y mae'r darpariaethau yn gymwys yn ymarferol. |
| (3) | 1990 ARh, a. 80(3) | Hepgor darpariaeth y caniateir rhoi grantiau cytundeb ardal gadwraeth yn ddarostyngedig i amodau. | 26.C.2(iii) | Ei hepgor gan mai afraid yw dweud hynny. |
| | 1990 ARh, a. 80(2) a (5) | Datganiad penodol y caiff Gweinidogion Cymru dalu grant at ddibenion cytundeb ardal gadwraeth i awdurdod cynllunio *neu i unrhyw berson arall*. | 26C.2(ii) | Egluro'r ystyr sydd, o reidrwydd, i'r darpariaethau, o ystyried bod pwerau i adennill grantiau yn adran 78(4) i (8) yn gymwys. |
| ***RHAN 5 – DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG AC ARDALOEDD CADWRAETH*** | | | | |
| ***Pennod 1 – Arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio ac awdurdodau lleol eraill*** | | | | |
| ***Adran 169 – Trefniadau ar gyfer cael cyngor arbenigol*** | | | | |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| (6) | 1990 ARh, Atodlen 4, paragraff 7(1) | Estyn swyddogaethau y mae darpariaethau yn gymwys iddynt i gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â digolledu, hysbysiadau prynu a chytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig. | 26C.2(iv) | Llenwi bylchau anghyson yn y darpariaethau a chywiro amryfusedd yn y ffordd y drafftiwyd OS 2021/1177. |
| ***Adran 170 – Ffurf ar ddogfennau*** | | | | |
| Yr adran gyfan | 1990 ARh, a. 93(1)(a) | Ychwanegu geiriad i egluro bod y pŵer i bennu "ffurf" dogfennau yn cynnwys pŵer i bennu eu cynnwys. | 26C.2(ii) | Egluro'r sefyllfa bresennol y caniateir defnyddio'r pŵer i bennu'r hyn y mae rhaid i ffurflen ei gynnwys, a chysoni'r geiriad â phwerau tebyg eraill yn y Ddeddf. |
| ***Adran 171 – Cyfraniadau tuag at wariant gan awdurdodau lleol*** | | | | |
| (3) | 1990 ARh, a. 90(1) a (3) | Diwygiad i ddileu mân wahaniaethau rhwng rhestrau o swyddogaethau a gwmpesir gan bwerau Gweinidogion Cymru i wneud cyfraniadau a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau eraill wneud cyfraniadau. | 26C.2(iv) | Mae'r gwahaniaethau rhwng y rhestrau o ddarpariaethau yn adran 90(1) a (3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn fach ac nid oes rheswm wedi ei nodi ar eu cyfer. Mae'n ymddangos hefyd fod y rhestrau yn cynnwys gwallau. |
| ***Pennod 2 – Achosion gerbron Gweinidogion Cymru*** | | | | |
| ***Adran 173 – Penderfynu apêl gan berson a benodir*** | | | | |
| (1), (2) | 1990 ARh, Atodlen 3, paragraff 1(1); | Symud darpariaeth i apelau gael eu penderfynu gan bersonau a benodir o reoliadau i'r adran, a hepgor pŵer i | 26C.2(iv) | Adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o dan OS 2015/1822 bod pob apêl yn cael ei phenderfynu gan bersonau a |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o’r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | OS 2015/1822, rheoliad 3(2) | reoliadau bennu pa apelau sydd i’w penderfynu gan bersonau a benodir. | | benodir. Rhoi effaith i CG 383 argymhellion 11-2 ac 11-4. |
| (3) | 1990 ARh, Atodlen 3, paragraff 1(2) | Diwygio pwerau i bennu apelau na phenderfynir gan bersonau a benodir fel y bydd rhaid i eithriadau cyffredinol fod mewn rheoliadau ac na chaiff cyfarwyddydau ond gwneud eithriadau penodol. | 26C.2(iv) | Nid oes angen pŵer i wneud cyfarwyddydau cyffredinol yn yr achos hwn. Mae’r newid yn rhoi effaith i CG 383 argymhellion 11-2 ac 11-4. |
| Hepgor pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarwyddydau | 1990 ARh, Atodlen 3, paragraff 1(3) | Hepgor pŵer i reoliadau ddarparu ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarwyddydau. | 26C.2(iii) a (iv) | Nid oes angen y pŵer o ganlyniad i ddileu’r pŵer i roi cyfarwyddydau cyffredinol. Mae eisoes yn ofynnol i reoliadau gael eu cyhoeddi. |
| ***Atodlen 12 – Penderfynu apêl gan berson a benodir neu Weinidogion Cymru*** | | | | |
| Hepgor darpariaeth ynghylch dilysrwydd penderfyniad person a benodir | 1990 ARh, Atodlen 3, paragraff 2(6) | Nid yw darpariaeth mai o dan adrannau 62 a 63 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn unig y caniateir herio dilysrwydd penderfyniad person a benodir wedi ei hailddatgan. | 26C.2(iv) | Dileu dyblygu. Mae adrannau 182 a 183 (adolygiad statudol) eisoes yn gymwys i benderfyniadau ar apelau heb unrhyw gyfyngiad. |
| Paragraff 3(2) | 1990 ARh, Atodlen 3, paragraff 6(2) | Estyn pŵer i benodi asesydd i gwmpasu achosion a benderfynir ar sail sylwadau ysgrifenedig ac i alluogi person a benodir i benodi asesydd. | 26C.2(v) | Rhoi effaith i CG 383 argymhellion 11-3 ac 11-4 a Com y Gyfr (*Pwerau i benodi aseswyr*). |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| Paragraff 7(2) | 1990 ARh, Atodlen 3, paragraff 7(3) | Hepgor cyfeiriad at Ddeddf 2005. | 26C.2(iii) | Mae'r cyfeiriad wedi ei ddisbyddu. Diddymwyd Deddf 2005 ac nid oes unrhyw achosion oddi tani mwyach. |
| ***Adran 174 – Dewis o ymchwiliad, gwrandawiad neu weithdrefn ysgrifenedig*** | | | | |
| (7) | 1990 ARh, a. 88E(7) | Diwygiad i gwmpasu ceisiadau brys gan y Goron am gydsyniad yn yr adran hon. | 26C.2(iv) | Cywiro gwall. Amryfusedd oedd hepgor ceisiadau brys gan y Goron o adran 88E o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn OS 2014/2773. |
| ***Adran 177 – Pŵer person sy'n cynnal ymchwiliad i wneud tystiolaeth yn ofynnol*** | | | | |
| (1) | 1972, a. 250(2) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, Atodlen 3, paragraff 6(4A) a 1990 C, a. 320(2) | Egluro effaith adran 250(2) o Ddeddf 1972 pan fo'n ofynnol i berson ddangos dogfennau. | 26C.2(ii) | Egluro nad yw'n ofynnol i berson y mae'n ofynnol iddo ddangos dogfennau fod yn bresennol mewn ymchwiliad lleol i wneud hynny. Mae hyn yn adlewyrchu sut y deellir bod y ddarpariaeth yn gymwys yn ymarferol. |
| ***Adran 178 – Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad*** | | | | |
| (6) | 1990 ARh, Atodlen 3, paragraff 6A(3), 8(3) a (4); 1990 C, a. 321(7) a 321B(3) a (4) | Hepgor pŵer cydredol yr Arglwydd Ganghellor i wneud rheolau sy'n ymwneud â chyfarwyddydau diogelwch cenedlaethol a swyddogaethau cynrychiolwyr a benodir. Ni fyddai'r pŵer hwnnw ond ar gael os nad oedd rheoliadau wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru. | 26C.2(iv) | Dileu dyblygu pwerau ac adlewyrchu'r ffaith bod darpariaeth ynghylch y materion hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn OS 2006/1387. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Adran 180 – Talu costau Gweinidogion Cymru*** | | | | |
| (1) | 1990 C, a. 322C(1) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Diwygiad i egluro bod pwerau costau yn gymwys i bob achos a ddygir gerbron Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (pa un a ydynt yn geisiadau neu'n apelau ai peidio). | 26C.2(ii) | Egluro cwmpas pwerau sy'n ymwneud â chostau achosion, a chwmpas pwerau cynharach a ailddatganwyd ganddynt. |
| ***Adran 181 – Gorchmynion sy'n ymwneud â chostau partïon*** | | | | |
| (1) | 1990 C, a. 322C(1) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Diwygiad i egluro bod pwerau costau yn gymwys i bob achos a ddygir gerbron Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (pa un a ydynt yn geisiadau neu'n apelau ai peidio). | 26C.2(ii) | Egluro cwmpas pwerau sy'n ymwneud â chostau achosion, a chwmpas pwerau cynharach a ailddatganwyd ganddynt. |
| (3) a (4) | Newydd | Darpariaethau newydd sy'n nodi prawf i'w fodloni cyn y caiff Gweinidogion ei gwneud yn ofynnol i berson dalu costau parti arall, a nodi bod eu pŵer i wneud hynny hefyd yn ddarostyngedig i reolau gweithdrefnol. | 26C.2(ii) | Mae is-adran (3) yn adlewyrchu'r arferion presennol, sydd wedi eu cadarnhau gan gyfraith achosion ac sydd wedi eu nodi ar hyn o bryd yn Llywodraeth Cymru, *Llawlyfr Rheoli Datblygu* (Mai 2017), Atodiad 12: Dyfarnu Costau. Mae'r newid hefyd yn gyson â CG 383 argymhelliad 18-12.<br>Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn glir bod y pŵer i ddyfarnu costau hefyd yn ddarostyngedig i reolau o dan |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | adran 175(5). |
| ***Pennod 3 – Dilysrwydd penderfyniadau a'u cywiro*** | | | | |
| ***Adran 182 – Dilysrwydd penderfyniadau a gorchmynion penodol sy'n ymwneud ag adeiladau*** | | | | |
| (3)(c) | 1990 ARh, a. 62(1)(c), (2A) | Rhoi cyfeiriadau at orchmynion costau o dan ddarpariaethau yn y Ddeddf sy'n ailddatgan adran 322C o Ddeddf Cynllunio 1990, yn lle cyfeiriadau at orchmynion costau o dan 250(5) o Ddeddf 1972. | 26C.2(ii) | Cywiro cyfeiriad anghywir yn adran 62(2A) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, fel y bydd yn cyfeirio at bwerau sydd wedi disodli adran 250(5) o Ddeddf 1972 mewn achosion cynllunio yng Nghymru. |
| ***Adran 184 – Apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad sy'n ymwneud â hysbysiad gorfodi*** | | | | |
| (2)(a) | 1990 ARh, a. 65(1) | Ychwanegu geiriad i'w gwneud yn glir nad yw'r hawl i apelio o dan yr adran hon yn gymwys i benderfyniadau i roi cydsyniad neu ddileu amodau (sy'n ddarostyngedig i adolygiad statudol – gweler adrannau 182 a 183). | 26C.2(ii) | Egluro bod yr hawliau i apelio a gwneud cais am adolygiad statudol yn cau ei gilydd allan. |
| ***Adran 186 – Pŵer i gywiro gwallau cywiradwy mewn dogfennau penderfyniad*** | | | | |
| (8) | 1990 ARh, a. 56(2) a 59(3) | Diwygiad i egluro y caiff swyddogaethau sy'n ymwneud â chywiriadau gael eu harfer gan Weinidogion Cymru neu unrhyw berson a benodir, pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol gan berson a benodir. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu'r ystyr y deellir sydd i'r darpariaethau a sut y cânt eu cymhwyso yn ymarferol gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. |
| ***Adran 187 – Effaith a dilysrwydd hysbysiad cywiro*** | | | | |
| (4) | 1990 ARh, a. | Diwygiad fel y mae rhaid i her i gywiriad | 26C.2(iv) | Cywiro anghysondeb yn adran 58(5) |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | 58(5) | penderfyniad ar apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi gael ei dwyn drwy apelio i'r Uchel Lys o dan adran 184. | | o Ddeddf 2004, sy'n gwneud pob cywiriad yn ddarostyngedig i adolygiad statudol hyd yn oed os nad oedd y penderfyniad gwreiddiol yn ddarostyngedig i hynny. Cysoni'r sefyllfa â'r sefyllfa ar gyfer penderfyniadau cynllunio. |
| ***RHAN 6 – ASEDAU TREFTADAETH ERAILL A CHOFNODION*** | | | | |
| ***Adran 192 – Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol*** | | | | |
| (4) | 1979, a. 41A(4) | Hepgor gofyniad i roi gwybod i berchnogion etc. pan fo tiroedd wedi eu cynnwys yn y gofrestr. | 26C.2(iii) | Mae'r gofrestr eisoes yn bodoli, felly nid oes ond angen i'r ddarpariaeth ymdrin â diwygiadau dilynol iddi. |
| (5)(a) | 1979, a. 41A(4)(a) a (b) | Ychwanegu geiriau mewn cromfachau i wneud hysbysiad yn ofynnol i berchennog neu feddiannydd unrhyw beth a restrir yn adran 192(2) os nad ef yw perchennog neu feddiannydd y parc neu'r ardd. | 26C.2(ii) | Egluro effaith y gofyniad i roi hysbysiad. |
| (5)(b) | 1979, a. 41A(4)(c) | Newid y cyfeiriad at "local authority or National Park authority" i "awdurdod cynllunio" ("planning authority") ac ychwanegu geiriad i wneud hysbysiad yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio y mae unrhyw beth a restrir o dan adran 192(2) yn ei ardal (os nad ef yw'r awdurdod y mae'r parc neu'r ardd yn ei ardal). | 26C.2(ii) | Egluro pa awdurdod y mae angen ei hysbysu. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Adran 193 – Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o enwau lleoedd hanesyddol*** | | | | |
| Yr adran gyfan | 2016, a. 34 | Ychwanegu gofyniad i gyhoeddi'r rhestr. | 26C.2(ii) a (iv) | Adlewyrchu sut y cymhwysir yr adran yn ymarferol a sicrhau cysondeb â darpariaethau tebyg eraill yn y Ddeddf. |
| ***Adran 194 – Dyletswydd i gynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol*** | | | | |
| (1) | 2016, a. 35(1) | Newid gofyniad i lunio cofnodion a'u cadw'n gyfredol, i ofyniad i gynnal. | 26C.2(ii) a (iv) | Mae cofnodion eisoes wedi eu llunio, ac mae'r gofyniad i gynnal yn gyson â darpariaethau eraill y Ddeddf (y ddyletswydd i gynnal cofrestr o henebion, er enghraifft). |
| (8)(a) | 2016, a. 35(7) | Estyn darpariaeth ynghylch y môr tiriogaethol i bob cyfeiriad at ardal awdurdod lleol. | 26C.2(iv) | Mae mater y môr tiriogaethol yn berthnasol i bob cyfeiriad at ardal awdurdod lleol. |
| ***RHAN 7 - CYFFREDINOL*** | | | | |
| ***Adran 197 – Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol drwy hysbysiad*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 57; 1990 C, a. 330 fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Cymhwyso i Ran 2 o'r Ddeddf ddarpariaeth i ofyniad i ddarparu gwybodaeth gael ei osod gan hysbysiad ysgrifenedig. | 26C.2(ii) a (iv) | Nid yw adran 57 o Ddeddf 1979 yn pennu sut y byddai gwybodaeth yn ofynnol. Mae'r newid yn adlewyrchu sut y cymhwysir y ddarpariaeth yn ymarferol ac yn ei chysoni â'r dull a fabwysiadwyd yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990. |
| | | Hepgor pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol ynghylch materion ym | 26C.2(ii) | Mae'r materion yn ymwneud â'r defnydd o fangreoedd, sy'n |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | mharagraffau (c) i (f) o adran 330(2) o Ddeddf Cynllunio 1990. | | berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio 1990 ond nad yw'n berthnasol i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (sy'n ymwneud â gwaith yn hytrach na defnydd). |
| (3) | 1990 C, a. 330(3) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Cymhwyso i Ran 2 o'r Ddeddf ddarpariaeth ynghylch y cyfnod y mae rhaid rhoi gwybodaeth ynddo. | 26C.2(ii) a (iv) | Ar hyn o bryd, nid yw adran 57 o Ddeddf 1979 yn dweud dim am y mater hwn. Mae'r newid yn cysoni'r sefyllfa â'r sefyllfa o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. |
| ***Adran 198 – Troseddau mewn cysylltiad ag adran 197*** | | | | |
| (3) | 1979, a. 57(3); 1990 C, a. 330(5) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Hepgor darpariaeth ar gyfer carcharu am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd ar euogfarn ar dditiad am drosedd o dan adran 330(5) o Ddeddf Cynllunio 1990. | 26C.2(iv) | Sicrhau cysondeb ag adran 57 o Ddeddf 1979, nad yw'n gwneud darpariaeth ar gyfer carcharu. Argymhellodd CG 383 argymhelliad 12-24 ddileu'r opsiwn o garcharu am drosedd o dan adran 330(5), ac mae'r newid yn rhoi effaith i'r argymhelliad hwnnw i'r graddau y mae adran 330(5) yn gymwys at ddibenion Deddf Adeiladau Rhestredig 1990. |
| ***Adran 199 – Gwybodaeth am fuddiannau yn nhir y Goron*** | | | | |
| (1) | 1990 C, a. 330A fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. | Cymhwyso i Ran 2 o'r Ddeddf ddarpariaeth amgen ar gyfer cael gwybodaeth ynghylch buddiannau yn | 26C.2(iv) | Newid er cysondeb â'r sefyllfa o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990. Nid oes dim sy'n cyfateb i adran 330A yn Neddf 1979, ond nid oes rheswm |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | 89(1) | nhir y Goron. | | i'r ddwy Ddeddf fabwysiadu dulliau gwahanol. |
| ***Adran 200 – Troseddau gan gyrff corfforedig*** | | | | |
| (1) | 1979, a. 58(2); 1990 C, a. 331(2) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Hepgor geiriau sy'n cyfyngu cyfeiriadau at gyrff a reolir gan eu haelodau i gyrff sy'n rhedeg diwydiannau sydd o dan berchnogaeth genedlaethol. | 26C.2(iii) | Mae'r geiriad wedi dyddio ac nid yw wedi ei gynnwys mewn darpariaethau cyfatebol mewn Deddfau diweddar (e.e. Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, a. 26(3)). |
| Cymhwyso adran i'r drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig | 1990 ARh, a. 89(2) | Hepgor darpariaeth sy'n datgymhwyso adran 331 o Ddeddf Cynllunio 1990 mewn perthynas â'r drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig o dan adran 59 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 (yn adran 89(2) o'r Ddeddf honno). | 26C.2(iv) | Parhaodd adran 89(2) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 â gwall. Crëwyd trosedd adran 59 gyntaf gan Ddeddf Amwynderau Dinesig 1967, tra deddfwyd adran 331 o Ddeddf Cynllunio 1990 gyntaf yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968. Mae'n ymddangos y methwyd yr angen i'w chymhwyso i'r drosedd hon. |
| ***Adran 201 – Sancsiynau sifil*** | | | | |
| Yr adran gyfan | 2008, a. 36(2) ac Atodlen 6 | Cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer sancsiynau sifil yn gyfatebol i'r hyn a ganiateir gan Ran 3 o Ddeddf 2008, a'i estyn i gwmpasu pob trosedd o dan y Ddeddf. | 26C.2(iv) | Mae'r pwerau yn Rhan 3 o Ddeddf 2008 yn gymwys i droseddau perthnasol ("relevant offences") a oedd yn bodoli yn union cyn y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf: gweler 2008, a. 37(2) a 38(2).<br>Mae adran 201 yn cadw effaith Rhan |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 3 o Ddeddf 2008 mewn perthynas â throseddau perthnasol a ailddatgenir yn y Ddeddf, ond hefyd yn cynnwys troseddau a ychwanegwyd at Ddeddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 gan Ddeddf 2016, ynghyd â rhai troseddau o Ddeddf Cynllunio 1990 a Deddf 1972 sydd wedi eu cynnwys yn yr ailddatganiad.<br>Ystyrir bod hyn yn briodol i osgoi bylchau a sicrhau cysondeb. Mae'r troseddau a ychwanegir i gyd yn debyg iawn i droseddau a oedd eisoes yn droseddau perthnasol at ddibenion Deddf 2008. Diwygiad canlyniadol a gollwyd oedd y methiant i estyn Deddf 2008 i droseddau a fewnosodwyd gan Ddeddf 2016. |
| ***Adran 203 – Penderfynu hawliadau digolledigad gan yr Uwch Dribiwnlys*** | | | | |
| (1), (2) | 1979, a. 47(2) a (3); 1990 ARh, a. 31(4) a (5); 1990 C, a. 118 fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 88B(7) | Hepgor pwerau i reoliadau ddarparu ar gyfer eithriadau ac addasiadau. | 26C.2(iii), (iv) | Nid yw'r pwerau gwneud rheoliadau yn Neddf Adeiladau Rhestredig 1990 a Deddf Cynllunio 1990 wedi cael eu defnyddio ac nid oes angen amdanynt wedi ei nodi. Mae eu hepgor hefyd yn gyson â'r sefyllfa o dan Ddeddf 1979 (nad yw'n cynnwys pwerau cyfatebol). |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| ***Adran 205 – Cyflwyno hysbysiadau a dogfennau eraill: cyffredinol*** | | | | |
| (2)(c) | 1979, a. 56(1)(c); 1990 C, a. 329(1)(c) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Rhoi darpariaeth sy'n caniatáu defnyddio'r gwasanaeth post arferol, yn lle gofynion i ddefnyddio'r gwasanaeth post cofrestredig neu'r gwasanaeth danfon cofnodedig. | 26C.2(ii) | Adlewyrchu arferion presennol Cadw ar gyfer cyflwyno dogfennau a derbyn cyflwyniad gan eraill. Nid yw hyn yn newid ar gyfer awdurdodau lleol gan fod y gwasanaeth post arferol eisoes yn cael ei ganiatáu pan fydd yr awdurdodau hynny yn gwneud cyflwyniad ac yn derbyn cyflwyniad gan eraill, o dan adrannau 231 a 233 o Ddeddf 1972. Gellid defnyddio gwasanaeth post cofrestredig a gwasanaeth danfon cofnodedig o hyd pan fo prawf o'r danfoniad yn bwysig. |
| (3) | 1979, a. 56(1A); 1990 C, a. 329(3A) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Symleiddio'r ddarpariaeth a hepgor y diffiniad o "legible in all material respects". | 26C.2(iii) | Nid oes angen y manylyn o ganlyniad i ddatblygiadau mewn cyfathrebu electronig a'r defnydd o e-bost i anfon copïau o ddogfennau. Mae darpariaethau ar gyfer cyflwyno yn electronig yn symlach mewn Deddfau diweddar (e.e. Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, adran 237). |
| Diffiniad o "Wales" | 1979, a. 56(3) | Hepgor y diffiniad o "Wales". | 26C.2(iii) | Nid yw adran 206 o'r Ddeddf yn cyfeirio mwyach at Gymru, gan nad yw'r Ddeddf yn gymwys ond o ran Cymru; ac mae'r diffiniad yn adran |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 56(3) yr un fath â'r diffiniad yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Deddfwriaeth. |
| ***Adran 206 – Darpariaeth ychwanegol ynghylch cyflwyno i bersonau sydd â buddiant mewn tir neu sy'n meddiannu tir*** | | | | |
| (2) | 1979, a. 56(2)(a); 1990 C, a. 329(2)(a) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Cyfyngu darpariaeth yn Neddf 1979 ar gyfer cyfeirio dogfen at y perchennog ("the owner") i achosion pan na wyddys enw'r person. | 26C.2(ii) | Cysoni'r sefyllfa ar gyfer henebion â'r sefyllfa o dan adran 329(2)(a) o Ddeddf Cynllunio 1990, ac adlewyrchu amgylchiadau y byddai'n briodol defnyddio'r ddarpariaeth oddi tanynt. |
| (4)(a) | 1979, a. 56(2)(b); 1990 C, a. 329(2)(b) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Cyfyngu darpariaeth ar gyfer cyflwyno dogfen i berchennog drwy ei danfon i'r adeilad neu'r heneb, neu ei harddangos yno, i achosion pan na wyddys cyfeiriad (yn hytrach nag enw) y perchennog. | 26C.2(iv) | Cysoni'r sefyllfa ar gyfer adeiladau â'r sefyllfa ar gyfer henebion o dan adran 56(2)(b) o Ddeddf 1979, ac adlewyrchu amgylchiadau y byddai'n briodol defnyddio'r ddarpariaeth oddi tanynt. Mae'n ymwneud â ble y cyflwynir dogfen, felly yr hyn sy'n bwysig yw a oes cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfen. |
| (5) | 1990 C, a. 329(2)(b) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1); OS 1992/1492, rheoliad 13 | Symud darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid marcio dogfen fel cyfathrebiad pwysig o reoliadau i'r adran a'i chymhwyso i'r Ddeddf gyfan. | 26C.2(iv) | Ei symud i'r adran gan fod y ddarpariaeth yn gryno ac nad oes angen ei newid; ei chymhwyso i ddogfennau sy'n ymwneud â henebion er cysondeb, gan nad oes rheswm i'r gofyniad beidio â bod yn gymwys ym mhob achos. |
| (5)(a) | 1979, a. 56(2)(b); 1990 C, a. | Rhoi darpariaeth ar gyfer gwasanaeth post arferol, yn lle darpariaeth ar gyfer | 26C.2(ii) | Gweler y nodyn ar gyfer adran |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | 329(2)(b) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | gwasanaeth post cofrestredig neu wasanaeth danfon cofnodedig. | | 205(2)(c) uchod. |
| Darpariaeth ynghylch cyflwyno mewn perthynas â thir heb ei feddiannu | 1990 C, a. 329(3) fel y'i cymhwyswyd gan 1990 ARh, a. 89(1) | Hepgor darpariaethau o Ddeddf Cynllunio 1990 ynghylch achosion pan fo rhaid cyflwyno dogfennau i berchnogion a meddianwyr ond bo'r tir heb ei feddiannu. | 26C.2(iii) | Nid yw adran 329(3) o Ddeddf Cynllunio 1990 yn ychwanegu dim at y dulliau cyflwyno i feddianwyr sydd ar gael o dan adran 329(2); ac mae'n aneglur pam y byddai'n angenrheidiol neu'n briodol ar gyfer cyflwyno i bersonau sydd â buddiant mewn tir. |
| ***Adran 207 – Diffiniadau sy'n ymwneud â'r Goron*** | | | | |
| (3) | 1990 ARh, a. 82C(3)(c), (11) a (12) | Hepgor pŵer i bennu buddiannau ychwanegol fel buddiannau'r Goron o'r ailddatganiad. | 26C.2(iii) | Nid oes pŵer cyfatebol yn Neddf 1979. Nid yw'r pŵer yn adran 82C(3)(c) wedi ei ddefnyddio mewn perthynas ag unrhyw dir yng Nghymru, ac nid yw Cadw yn credu bod ei angen. |
| (3), (6)(c), (9)(a) | Deddf 1979, a. 50(4); 1990 ARh, a. 82C(3) | Cymhwyso cyfeiriad at fuddiant yn hawl ystadau preifat Ei Fawrhydi i henebion. | 26C.2(iv) | Newid er cysondeb ag adeiladau rhestredig. Nid yw adran 50(4) o Ddeddf 1979 yn dweud dim am y mater hwn ar hyn o bryd, ond nid oes rheswm i dir y Goron fod ag ystyron gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r Ddeddf. |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| (7), (9)(b) | OS 2007/1353, erthyglau 3 a 5 | Symud darpariaeth sy'n trin Comisiwn y Senedd fel un o gyrff y Goron o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i'r Ddeddf. | 26C.2(iv) | Sicrhau bod diffiniadau sy'n ymwneud â'r Goron yn yr adran hon yn gyflawn. |
| Dehongli cyfeiriadau sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad | 1990 ARh, a. 82C(8) a (9) | Hepgor darpariaeth ynghylch cyfeiriadau at yr "appropriate authority" mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad a wneir gan y Goron mewn perthynas â thir nad yw'n dir y Goron. | 26C.2(iv) | Cywiro camgymeriad ymddangosiadol. Nid yw Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau y mae'r darpariaethau yn gymwys iddynt. |
| ***Adran 208 – Tir Eglwys Loegr*** | | | | |
| (3) | 1979, a. 51(3); 1990 ARh, a. 86(3); Atodlenni i OS 2021/1176 ac OS 2021/1177 | Estyn darpariaeth ynghylch talu a defnyddio digolledlad i gymhwyso i bob digolledlad o dan y Ddeddf. | 26C.2(iv) | Dileu bylchau. Ar hyn o bryd, nid yw adran 86(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn gymwys i bob digolledlad sy'n daladwy o dan y Ddeddf, ond mae'n ymddangos mai gwall yw hynny. |
| ***Adran 209 - Rheoliadau o dan y Ddeddf hon*** | | | | |
| (2)(b) | 1979, a. 60(1A); 1990 ARh, a. 26M(5)(b), 60(6)(e), 88E(9)(a) a 93(6); 1990 C, a. 303(6)(a) a 303ZA(4)(a); 2004, a. 122(3)(b) | Cynnwys pwerau penodol i wneud darpariaeth ategol ar gyfer pob rheoliad o dan y Ddeddf. | 26C.2(ii) | Sicrhau bod pwerau i wneud darpariaeth ategol wedi eu cynnwys ar gyfer pob pŵer o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 a Deddf Cynllunio 1990. Gall y pwerau hyn fod yn ymhlyg yn gyffredinol, ond mae'r newid yn sicrhau cysondeb.<br>Byddai cymal 112 o'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio fel y'i cyflwynwyd yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 11 Mai |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 2022 yn diwygio'r ddwy Ddeddf i gynnwys pwerau ategol penodol, ond nid yw'r newid yn adran 209(2)(b) yn dibynnu ar basio'r Bil hwnnw am y rhesymau a roddir uchod. |
| (5)(h) | 1979, a. 60(4); 1990 ARh, a. 88E(10) a 93(3A); 1990 C, a. 333(3E) a (3F)(e) ac (f); 2004, a. 122(6B); 2008, a. 61(2); 2016, a. 40(12) | Cymhwyso gweithdrefn gadarnhaol y Senedd i bob rheoliad sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. | 26C.2(iv) | Sicrhau bod pob rheoliad sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i weithdrefn addas y Senedd, gan gynnwys pan fo pwerau wedi dod yn bwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i symud darpariaethau o is-ddeddfwriaeth i'r Ddeddf (e.e. y pŵer yn adran 163(3) i ddiwygio darpariaethau'r adran honno sy'n addasu Rhan 3 ar gyfer ardaloedd cadwraeth), a phwerau eraill nad ydynt ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (fel y pŵer yn adran 8(5) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 i ddisodli cyfeiriadau at y Comisiwn Brenhinol yn yr adran honno). |
| (6) | 1979, a. 9ZB(a) i (c) a 60(4)(a); 1990 ARh, a. 26M(3)(a) i (c) a 93(3A) | Newid gweithdrefn y Senedd ar gyfer rheoliadau penodol sy'n ymwneud â chytundebau partneriaethau o'r weithdrefn gadarnhaol i'r weithdrefn negyddol. | 26C.2(iv) | Cymhwyso gweithdrefn negyddol y Senedd i reoliadau ynghylch materion penodol (cynnwys dogfennau, ymgynghori a chyhoeddusrwydd) yr ymdrinnir â |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hwy gan reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol mewn mannau eraill yn y Ddeddf. Cedwir y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau eraill sy'n ymwneud â chytundebau partneriaethau, gan eu bod yn diwygio'r Ddeddf. |
| ***Atodlen 13 – Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau*** | | | | |
| Paragraff 9 | Deddf Iechyd y Cyhoedd 1961, Atodlen 4; OS 1999/672, Atodlen 1 | Disodli darpariaethau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, ac egluro effaith trosglwyddo swyddogaethau. | 26C.2(ii) | Mae'r gwaith drafftio yn egluro effaith cofnod perthnasol yn Atodlen 1 i OS 1999/672 ac yn hepgor cyfeiriadau sydd wedi eu disbyddu yn y cofnod hwnnw at British Telecommunications a'r Swyddfa Bost. |
| Paragraff 65 | 1990 ARh, a. 56 | Ei symud i Ddeddf Adeiladu 1984 a'i egluro i adlewyrchu effaith y Ddeddf honno. | 26C.2(ii) | Newid y geiriad i adlewyrchu'r ffaith nad yw swyddogaethau o dan Ddeddf 1984 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 bob amser yn arferadwy gan yr un awdurdodau, a'r ffaith y gwneir gorchmynion o dan adran 77(1)(a) o Ddeddf 1984 gan lys ac nid awdurdod lleol. |
| Paragraff 90 | 1990 ARh, a. 66 | Symud i Ddeddf Cynllunio 1990 ddyletswyddau i roi sylw i ddymunoldeb diogelu adeiladau rhestredig etc. wrth | 26C.2(ii) | Nid yw'r dyletswyddau ond yn gymwys i swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio 1990 a'u lle yw yn |

| Y Ddarpariaeth | Tarddiad | Disgrifiad o'r newid | Sail o dan RhS 26C.2 | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| | | arfer swyddogaethau cynllunio. | | y Ddeddf honno. |
| Paragraff 161 | Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, Atodlen 18 | Cynnwys darpariaethau ynghylch dyddiadau y mae llog yn dechrau ohonynt ar gyfer pob hawl i ddigollediad yn y Ddeddf. | 26C.2(iv) | Dileu bylchau. Mae diwygiadau canlyniadol y dylid bod wedi eu gwneud i ychwanegu hawliau newydd i ddigolllediad at yr Atodlen wedi eu methu. |

33. Mae'r tabl isod yn nodi darpariaethau sydd wedi eu hepgor o'r Ddeddf drwy ddibynnu ar baragraff (iii) o Reol Sefydlog 26C.2 oherwydd eu bod yn ddarpariaethau "anarferedig, darfodedig neu rai nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach". Mae'r tabl hwn yn ymdrin â hepgoriadau nad ydynt yn ymwneud â darpariaethau a ailddatgenir yn y Ddeddf, gan gynnwys nifer o hepgoriadau o adrannau neu Atodlenni cyfan. Mae hepgoriadau o fewn adrannau a ailddatgenir yn y Ddeddf wedi eu nodi yn y tablau sy'n ymwneud â'r Rhannau perthnasol o'r Ddeddf.

| Y ddarpariaeth a hepgorir | Disgrifiad | Rheswm dros ei hepgor |
|---|---|---|
| 1953, a. 5 | Pŵer penodol i Weinidogion Cymru gaffael adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol drwy gytundeb. | Nid yw'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio ac nid yw'n ychwanegu dim at bwerau cyffredinol Gweinidogion Cymru o dan Ran 2 o DLlC 2006. |
| 1953, a. 6 | Pŵer penodol i Weinidogion Cymru roi grantiau i dalu costau caffael adeiladau o ddiddordeb arbennig. | Nid yw'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio ac nid yw'n ychwanegu dim at bwerau cyffredinol Gweinidogion Cymru o dan DLlC 2006. |
| 1979, a. 31 | Pwerau penodol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol gael cyfraniadau tuag at gostau arfer swyddogaethau. | Nid oes angen pwerau penodol gan y caniateir derbyn cyfraniadau o dan bwerau cyffredinol (gweler adran 139 o Ddeddf 1972 ar gyfer awdurdodau lleol, a Rhan 2 o DLlC 2006 ar gyfer Gweinidogion Cymru). |

| Y ddarpariaeth a hepgorir | Disgrifiad | Rheswm dros ei hepgor |
|---|---|---|
| 1979, Rhan 2 (a. 33 i 41) ac a. 46(2) | Dynodi ardaloedd o bwysigrwydd archaeolegol a hysbysiad o weithrediadau yn yr ardaloedd hynny i alluogi ymchwiliad archaeolegol. | Nid yw'r pwerau i ddynodi ardaloedd erioed wedi eu defnyddio yng Nghymru ac mae Cadw yn ystyried nad ydynt yn debygol o gael eu defnyddio. Argymhellwyd diddymu'r pwerau yng Nghymru gan CG 383 argymhelliad 13-11. |
| 1979, a. 49 | Pŵer penodol i Weinidogion Cymru roi grantiau i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol. | Nid yw'r pŵer penodol yn cael ei ddefnyddio a chaiff Gweinidogion Cymru roi grantiau o dan eu pwerau cyffredinol yn Rhan 2 o DLlC 2006. |
| 1990 ARh, a. 1(6) ac Atodlen 1 | Darpariaethau ynghylch adeiladau sydd heb eu rhestru a oedd yn ddarostyngedig i orchmynion diogelu adeilad a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962. | Diddymwyd y pŵer i wneud gorchmynion diogelu adeilad gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968. Mae Cadw yn deall nad oes unrhyw adeiladau yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i orchmynion diogelu adeilad. |
| 1990 ARh, a. 30(2) | Pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio gyfrannu at ddigolllediad sy'n daladwy gan awdurdod cynllunio arall. | Deellir nad yw'r ddarpariaeth yn berthnasol ond pan fo mwy nag un awdurdod cynllunio ar gyfer ardal, ac nid yw'r sefyllfa honno yn bodoli yn unman yng Nghymru. Nid yw'r pŵer yn ychwanegu llawer at y pŵer yn adran 90(3) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, a ailddatgenir yn adran 171(3) o'r Ddeddf. |
| 1990 ARh, a. 40 | Pŵer i wneud rheoliadau gweithdrefnol ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig. | Mae'r pŵer wedi ei ddisodli gan y pŵer cyffredinol i wneud rheoliadau gweithdrefnol ar gyfer apelau i Weinidogion Cymru yn adran 323A o Ddeddf Cynllunio 1990 (a ailddatgenir yn adran 175 o'r Ddeddf). |
| 1990 ARh, a. 67 a 73 | Pwerau i wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion cyhoeddusrwydd ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. | Nid yw'r pwerau i osod gofynion cyhoeddusrwydd wedi eu defnyddio yng Nghymru ac maent yn dyblygu pwerau ehangach i wneud darpariaeth ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i geisiadau cynllunio yn adran 65 o |

| **Y ddarpariaeth a hepgorir** | **Disgrifiad** | **Rheswm dros ei hepgor** |
|---|---|---|
| | | Ddeddf Cynllunio 1990. |
| 1990 ARh, a. 81B (nid yw mewn grym) | Pŵer awdurdod lleol i wrthod penderfynu cais tra bo cais tebyg o dan ystyriaeth. | Nid yw mewnosod adran 81B gan Ddeddf 2004 wedi ei ddwyn i rym yng Nghymru, ac mae Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddwyn i rym. |
| 1990 ARh, a. 90(4) i (8) | Darpariaethau ariannol sy'n ymwneud â chyd-bwyllgorau cynghori, treuliau arbennig cynghorau sir, taliadau allan o arian a ddarperir gan Senedd y Deyrnas Unedig a'r Gronfa Gyfunol. | Diddymwyd cyd-bwyllgorau cynghori awdurdodau cynllunio gan Ddeddf 1972. Nid yw treuliau arbennig ("special expenses") yn berthnasol i wariant o dan y Ddeddf. Mae'r darpariaethau eraill yn ymwneud â gweithdrefnau ariannol Senedd y Deyrnas Unedig nad ydynt yn berthnasol i Senedd Cymru. Argymhellwyd hepgor y darpariaethau cyfatebol yn Neddf Cynllunio 1990 gan CG 383 argymhelliad 18-18(1). |
| 1990 ARh, a. 91(4) a (5) | Dehongli cyfeiriadau at ddarpariaethau sydd wedi eu haddasu mewn perthynas ag awdurdodau cynllunio, a chyfeiriadau at gyflwyno hysbysiadau i drafod telerau. | Nid oes angen y darpariaethau. Mae cyfeiriadau at ddarpariaethau sydd wedi eu haddasu yn cynnwys y darpariaethau fel y'u haddaswyd yn rhinwedd adran 25 o'r Ddeddf Deddfwriaeth; ac nid effeithid ar ddim un o'r cyfeiriadau at gyflwyno hysbysiadau i drafod telerau yn y Ddeddf gan y ddarpariaeth iddynt gynnwys cyflwyniad tybiedig. |
| 2004, a. 54 | Galluogi gorchymyn datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 1990 i bennu achosion pan fo'n ofynnol i berson yr ymgynghorir ag ef ynghylch cais o dan y Deddfau cynllunio ddarparu ymateb ac i wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn. | Nid yw'r pŵer erioed wedi ei ddefnyddio mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig na chydsyniad ardal gadwraeth. Mae Cadw yn ystyried nad yw'n debygol o gael ei ddefnyddio. |